

Myfyrio ar ddeng mlynedd o reoleiddio

Cyflwr Gwasanaethau Cyfreithiol 2020



LEGAL SERVICES
BOARD

Rhagair y Cadeirydd

Mae'r gyfraith yn bwysig. Mae'n ein cadw'n ddiogel. Mae'n darparu ffyrdd i ddatrys anghydfodau heb drais, ac yn rhoi llais i'r gwan yn erbyn y gryf. O ran bywyd economaidd, mae'n rhoi hyder i ni allu trafod a buddsoddi, a thrwy wneud hynny ddatgloi ffyniant.

Ac mae'n dilyn ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y gyfraith – cyfreithwyr a busnesau cyfreithiol – gyda hawliau daw cyfrifoldebau mawr.

Yn ystod y ddegawd mae'r sector wedi perfformio'n gryf mewn telerau economaidd gyda throsiant yn cynyddu 22% a chyflogaeth o 24%. Mae hyn yn erbyn cefndir o ddau ddigwyddiad seismig ar bob pen i'r ddeng mlynedd diwethaf o reoleiddio gwasanaethau cyfreithiol. Yn 2009, pan dybiodd LSB ei bwerau a grëwyd gan y Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007, roedd y Deyrnas Unedig yn ymgodi o'r cwmp ariannol yn 2008. Heddiw, yn 2020, mae'r wlad yn wynebu pandemig byd-eang digyffelyb ac mae Covid-19 yn creu canlyniadau dwys i bobl sydd angen gwasanaethau cyfreithiol a'r rhai sy'n eu darparu. Gallai ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd hefyd gael goblygiadau arwyddocaol ar y farchnad gwasanaethau cyfreithiol.

Mae'r pandemig yn esblygu, a hyd yma ni wyddom beth fydd goblygiad Covid-19. Ond bydd y sector cyfreithiol yn codi mewn sefyllfa gryfach i wasanaethu cymdeithas os yw'n deall ei gryfderau a gwendidau ac yn nodi a delio gyda'r blaenoriaethau cywir. Nod yr adroddiad hwn yw rhoi adroddiad gonest, seiliedig ar dystiolaeth o beth mae'r sector wedi ei gyflawni yn ystod y ddegawd ddiwethaf o reoleiddio gwasanaethau cyfreithiol a'r heriau allweddol sy'n parhau. Mae'r gyfrol hon yn edrych ar yr hyn a ddysgwyd trwy gyfarfodydd a sgysiau gyda rhanddeiliaid. Mae hefyd yn cyfeirio at ymchwil a gyflawnom gyda'n Panel Cyhoeddus – rhai dinasyddion a rannodd eu barnau ar wasanaethau cyfreithiol a'r blaenoriaethau ar gyfer y sector. Mae rhifyn dau, crynodeb o dystiolaeth, yn cyflwyno dadansoddiad cynhwysfawr o'r sector, gan wneud defnydd o gyfoeth o ystadegau, arolygon ac adroddiadau.

Mae yna gymaint i'w ddathlu ac mae'n hawdd anghofio er i'r Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 gael cefnogaeth ar draws y pleidiau, roedd yn ddarn dadleuol o ddeddfwriaeth. Roedd gwrthwynebwyr yn achwyn y byddai'r rhoi terfyn ar hunan reoleiddio proffesiynol. Rhagwelwyd y byddai ABS yn cael goblygiadau difrifol o ran annibyniaeth cyfreithwyr, cynnal safonau proffesiynol ac enw da rhyngwladol yr awdurdodaeth.

Er nad yw'r ddeddfwriaeth wedi arwain at yr holl enillion roedd ei gefnogwyr yn gobeithio amdanynt, nid yw wedi prysuro'r mathau o broblemau a ragwelai ei wrthwynebwyr, ac mae wedi darparu rhai llwyddiannau gwirioneddol a phwysig. Yn dilyn y twf mewn strwythurau busnes amgen, mae defnyddwyr yn mwynhau llawer mwy o ddewis na deng mlynedd yn ôl. Mae diwygiadau rheoleiddio hefyd wedi galluogi mwy o weithwyr proffesiynol cyfreithiol i sefydlu busnes a darparu gwasanaethau mewn meysydd ehangach o'r gyfraith. Mae darparwyr yn ystyried rheoleiddio i fod yn llawer llai o rwystr nag yn y gorffennol. Mae boddhad defnyddwyr wedi gwella, gan ddrysu beirniaid y diwygiadau a ragwelodd gwmp buan mewn safonau. Mae'r sector gorfforaethol wedi pweru twf economaidd cryf. Mae Cymru a Lloegr yn parhau i fod y dewis cyntaf ar gyfer datrys anghydfodau. Mae rhai awdurdodaethau tramor wedi mabwysiadu ein model deddfwriaethol i wneud eu marchnadoedd yn fwy agored.

Er y llwyddiannau hyn, roedd nifer o'r heriau critigol a wynebir gan y sector heddiw yn bodoli pan ddaeth y Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol i rym ddegawd yn ôl. Wrth edrych ymlaen, yr

her sylfaenol yw newid y ffocws ar y materion hyn i ddarparu buddiannau i'r cyhoedd, defnyddwyr a gweithwyr cyfreithiol:

- **Canlyniadau mwy teg** – mae hyn yn cynnwys ehangu mynediad y cyhoedd i gyngor a chefnogaeth a sicrhau nad yw pobl yn wynebu canlyniadau neu ansawdd gwasanaeth o safon is oherwydd eu cefndir neu amgylchiadau mewn bywyd. Rhaid i'r sector hefyd adeiladu diwylliant mwy cynhwysol sy'n galluogi unrhyw un i sicrhau gyrfa yn y gyfraith a chyflawni eu llawn botensial.
- **Mwy o hyder** – bydd hyn yn cynnwys datrys cwestiynau anodd o ran cwmmpas rheoleiddio ac ehangu mynediad i unioniad. Mae hefyd yn gofyn i'r rheoleiddwyr sefydlu'r mecanweithiau cywir er mwyn i weithwyr cyfreithiol proffesiynol ddarparu gwasanaethau cyfreithiol sy'n cymwys ac yn foesebol pob tro.
- **Gwell gwasanaethau** – bydd hyn yn gofyn am roi'r wybodaeth ac offer i ddefnyddwyr maent angen i ysgogi cystadlu cryfach, gan gymell defnyddwyr i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol sy'n ymateb i'w hanghenion. Mae hefyd yn gofyn bod rheolyddion yn meithrin arloesedd cyfrifol sy'n galw am ymddiriedaeth y cyhoedd a phroffesiynau cyfreithiol.

Mae'r rhain yn heriau hirdymor y bydd rhaid i'r sector eu trechu. Fodd bynnag, os gall fodloni'r heriau hyn, yna bydd cymdeithas, defnyddwyr a gweithwyr proffesiynol cyfreithiol yn elwa.

Er enghraifft, os byddwn ni'n llwyddiannus, bydd yna lawer llai o angen heb ei fodloni a llawer mwy o brofiad cyfartal o ddefnyddio gwasanaethau cyfreithiol. Bydd Legal Choices yn adnodd adnabyddus, ymddiriedus sy'n cefnogi pobl i ddeall sut gall y gyfraith helpu datrys eu materion a bydd gwasanaethau cymharu yn eu llywio i'r farchnad. Bydd chwilio am y cynnig gorau yn beth cyffredin gyda defnyddwyr yn gallu cymharu dewisiadau'n hawdd a gwobrwyo'r cwmnïau hynny sy'n cynnig gwasanaethau o ansawdd uchel a fforddiadwy. Bydd defnyddwyr yn ymddiried yn y cyngor a dderbyniont yn gyson, gan wybod bod system reoleiddio annibynnol ac effeithiol yn darparu amddiffyniad allweddol maent angen. Os byddant yn derbyn gwasanaeth gwael, waeth pa fath o ddarparwr a ddefnyddir, bydd defnyddwyr yn gallu cwyno i gorff annibynnol a chael unioniad cyflym a theg.

Bydd llwyddiant hefyd yn golygu sector sy'n adlewyrchu'r cymunedau mae'n gwasanaethu yn well. Bydd diwylliant cynhwysol yn annog pobl o bob cefndir i ddilyn y gyfraith ac yn eu cefnogi i fynd ar drywydd gyrfaoedd cyfreithiol boddhaus. Bydd systemau addysg a hyfforddiant yn paratoi gweithwyr cyfreithiol proffesiynol gyda'r wybodaeth, sgiliau a seiliau moesegol, yn eu galluogi i fodloni anghenion cymdeithas. Bydd system reoleiddio fodern yn barod i ymateb i'r farchnad newidiol, yn darparu gwell gwerth am arian ac yn cefnogi arloesi. Bydd yna fwy o barch mewn cymdeithas tuag at reolaeth cyfraith a chyfraniad arbennig gwasanaethau cyfreithiol i'n bywydau.

Does bosibl bod hyn yn gyfraniad i gymdeithas y mae'r sector mewn safle unigryw i'w wneud ac yn un a ddylai symblu ein hymdrechion ar y cyd?

Dr Helen Phillips

Cadeirydd

Crynodeb

1. Mae'r LSB yn datblygu strategaeth newydd ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau cyfreithiol gyda'r nod o sefydlu cyfeiriad teithio hirdymor i'r sector y gall rhanddeiliaid ei gefnogi. I hysbysu'r broses hon, mae adroddiad Cyflwr Gwasanaethau Cyfreithiol 2020 yn myfyrio ar ddeng mlynedd o reoleiddio gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr ers i'r Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 ddod i rym. Ein diben yw galluogi'r sector i adeiladu ar ei gryfderau ac i nodi'r heriau mae angen eu taclo er mwyn i wasanaethau cyfreithiol ddarparu'n well ar gyfer anghenion cymdeithas.
2. Mae'r gyfrol cyfuno'r holl drywyddion tystiolaeth a gasglwyd gennym, rhaglen helaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymchwil gyda'n Panel Cyhoeddus – grŵp o ddinasyddion a roddodd eu barnau ar beth ddylai ein blaenoriaethau fod yn y dyfodol. Dylid ei darllen ar y cyd ag ail rifyn sy'n sefydlu ein data a dadansoddiad mewn manylder.
3. Mae llawer i'w ddathlu. Yn dilyn y twf mewn strwythurau busnes amgen, mae defnyddwyr yn mwynhau llawer mwy o ddewis na deng mlynedd yn ôl. Maent hefyd yn fwy bodlon gyda'r gwasanaeth a dderbyniont gan gwmnïau cyfreithiol¹. Mae diwygiadau rheoleiddio hefyd wedi galluogi mwy o weithwyr proffesiynol cyfreithiol i sefydlu busnes a darparu gwasanaethau mewn meysydd ehangach o'r gyfraith ac mae darparwyr yn ystyried rheoleiddio i fod yn llawer llai o rwystr nag yn y gorffennol². Cafwyd twf economaidd cryf a sefydlog wedi ei ysgogi gan sector corfforaethol llwyddiannus. Yn rhyngwladol, mae Cymru a Lloegr yn parhau i fod y dewis cyntaf ar gyfer datrys anghydfodau. Mae awdurdodaethau tramor wedi mabwysiadu ein model deddfwriaethol i wneud eu marchnadoedd yn fwy agored.
4. Fodd bynnag, o ran sawl agwedd, mae'r sector yn methu â chyflawni anghenion cymdeithas. Rydym wedi nodi tair thema strategol eang a chydgyssylltiedig ble mae angen sicrhau cynnydd: **canlyniadau mwy teg, mwy o hyder a gwell gwasanaethau**. Roedd nifer o'r heriau oedd o fewn y themâu hyn yn bodoli wrth gychwyn y diwygiadau i'r Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol. Ar y pryd, roedd yna lefelau arwyddocaol o angen cyfreithiol heb ei fodloni, diffyg arloesedd, ac roedd cynnydd ar wella amrywiaeth a chynhwysiant yn araf. Mae materion mwy diweddar, fel twf darparwyr heb eu rheoleiddio a datblygiadau mewn technoleg, yn cyflwyno heriau newydd y bydd angen i'r sector ymraffael â nhw yn ystod y ddegawd nesaf.

Canlyniadau mwy teg

5. Awgryma ein data bod gan 3.6 miliwn o bobl angen cyfreithiol nad yw wedi ei fodloni yn ymwneud ag anghydfod pob blwyddyn³. Mae hanner y busnesau bach sy'n profi problemau cyfreithiol yn delio â'r rhain eu hunain⁴. Mae lleihad ym maint a chwmpas cymorth cyfreithiol, pwysau ar asiantaethau cynghori trydydd sector a chynnydd mewn achwynwyr personol ymysg y rhesymau pam fod bron i naw o bob deg o bobl yn cytuno

¹ Yn seiliedig ar Arolwg Olrhain LSCP – gweler y gyfrol tystiolaeth.

² LSB, Technoleg ac Arloesi mewn Gwasanaethau Cyfreithiol – Prif Adroddiad, 2018.

³ YouGov, Anghenion Cyfreithiol Unigolion yng Nghymru a Lloegr. Paratowyd ar gyfer yr LSB a Chymdeithas y Cyfreithwyr, Ionawr 2020.

⁴ BMG Research, The Legal Needs of Small Businesses 2013-17. Paratowyd ar gyfer LSB, 2018.

bod “y gyfraith yn gêm ble mae'r medrus a'r dyfeisgar yn fwy tebygol o gael beth maent ei eisiau”⁵. Er gwaethaf ei bwysigrwydd sylfaenol, mae'r drafodaeth ynghylch y system cymorth cyfreithiol a ariennir yn gyhoeddus ar adegau'n celu'r ffaith bod yna faterion mynediad arwyddocaol ar gyfer grwpiau poblogaeth a meysydd o'r gyfraith a fyddai'n annhebygol o fod o fewn cwrpas y cynllun cymorth cyfreithiol mwyaf hael hyd yn oed. Er bod fforddiadwyedd yn atalfa anorchfygol i nifer o bobl, mae'r rhwystrau i fynediad yn mynd tu hwnt i gost, gan gynnwys materion galluedd cyfreithiol a dyluniad y gwasanaeth.

6. Er bod gwasanaethau cyfreithiol tu hwnt i gyrraedd rhannau mawr o gymdeithas, mae'r un grwpiau poblogaeth – cymunedau BAME, pobl ag anableddau, pobl iau, rhai ar incwm isel a phobl gyda lefelau addysg isel – yn ymddangos yn aml yn ein data fel gwaeth eu byd. Mae hyn yn wir o ran mynediad at wasanaethau cyfreithiol, ansawdd eu profiad wrth wneud hynny, a pha mor deg maent yn dehongli yw canlyniad eu mater. Yn ogystal, mae'r grwpiau hyn yn fwy tebygol o brofi materion cyfreithiol difrifol sy'n ychwanegu ar broblemau maent eisoes yn eu hwynebu. Yn aml, mae hyn yn atgyfnerthu cylch o anfantais sy'n cyfrannu at ehangu anghydraddoldeb cymdeithasol. Yn y pen draw, bydd system gyfreithiol sy'n gwasanaethu rhai grwpiau o bobl yn llai da nag eraill yn ei chael yn anodd ennyn hyder y cyhoedd sy'n ganolog i reolaeth cyfraith.
7. Yn ogystal ag annhegwch ar gyfer defnyddwyr, rydym hefyd yn gweld annhegwch yn bresennol yn y proffesiwn ei hun, ac yn benodol o ran recriwtio, dargadw a chynnydd. Mae rhai gweithwyr cyfreithiol proffesiynol – neu bobl a fyddai wedi gwneud gweithwyr cyfreithiol proffesiynol arbennig pe na fyddent wedi eu digalonni wrth gychwyn – yn wynebu nifer o rwystrau sy'n cyfuno i ffafrio pobl o rai grwpiau ac yn eithrio eraill ar lefelau uwch y proffesiwn, yn cynnwys, ond yn sicr nid yn gyfyngedig i, y farnwriaeth. Mae'r rhwystrau hynny'n cynnwys ffafrio sefydliadau addysgol “elitaidd”, arferion gwaith a diwyllianau sy'n eithrio, dehongliadau digynsail o “hierarchaeth” rhwng gwahanol fathau o weithwyr cyfreithiol proffesiynol, a “homoffledd” (tuedd i ffafrio pobl sy'n debyg i ni'n hunain). Er bod lluniad y proffesiwn yn adlewyrchu'r boblogaeth mae'n gwasanaethu' well nag yr oedd ddeng mlynedd yn ôl, mae cyflymder delio â'r rhwystrau hyn ac eraill wedi bod yn rhy araf. Fe wyddom fod nifer ar draws y sector yn rhannu'r gofid hwn, yn arbennig felly'r prif sefydliadau cynrychioli gweithwyr proffesiynol. Fodd bynnag, er ein bod yn gweld nifer o fentrau yn digwydd, mae gwerthuso yn brin ac mae hynny'n ei gwneud yn llawer anoddach gwybod beth sy'n creu'r newid mwyaf. Yn wir, o ystyried cyfradd araf cynnydd, rhaid i ni o leiaf ystyried y posibilad nad yw ymagweddu cyfredol yn gweithio, a bod angen rhai newydd, mwy radicalaidd o bosibl.

Gwella hyder

8. Yn gyffredinol, mae pobl yn ymddiried mewn cyfreithwyr ac yn fodlon â'r cyngor maent yn ei dderbyn. Ond ar wahân i ystyried y nifer fawr o bobl a busnesau nad ydynt yn cael y cymorth cyfreithiol maent angen, ar gyfer y rhai sydd yn cael mynediad at wasanaethau cyfreithiol ceir pryderon ynghylch ansawdd y cyngor a chynrychiolaeth mewn meysydd critigol fel trosedd a mewnfudo a lloches⁶. Mae yna hefyd dystiolaeth

⁵ YouGov, Anghenion Cyfreithiol Unigolion yng Nghymru a Lloegr. Paratowyd ar gyfer yr LSB a Chymdeithas y Cyfreithwyr, Ionawr 2020.

⁶ Yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer prosiect cymhwyster yr LSB sy'n mynd rhagddo – gweler y rhifyn tystiolaeth.

gan asiantaethau cyhoeddus bod camgymeriadau y gellid eu hosgoi ar ffurflenni yn gyffredin. Tu hwnt i safon y gwaith, ar draws gwahanol haenau o'r proffesiwn, o gwmnïau cyfreithiol y stryd fawr i gwmnïau dinesig, mae angen cynnal safonau ymddygiad uchel a fydd yn cynnal hyder y cyhoedd mewn cyfreithwyr fel proffesiwn moesegol sydd â chynnal rheolaeth cyfraith fel ei ddiben canolog. Mae perygl y bydd hyder y cyhoedd yn cael ei danseilio ble, er enghraifft, ceir diffyg cydymffuriad eang gan gwmnïau stryd fawr a siambrau bargyfreithwyr gyda rheolau wedi eu cynllunio i gefnogi dewis i ddefnyddwyr. Ar ben arall y sbectrwm, mae cwmnïau cyfreithiol chyfreithwyr mewnlol sy'n gwasanaethu cleientiaid corfforaethol wedi eu cysylltu â sgandalau amlwg, fel hacio ffonau, sgandalau bancio a gwyngalchu arian, sy'n niweidio lles y cyhoedd.

9. Mae yna angen i fagu hyder y cyhoedd ar seiliau mwy cadarn, sy'n cyd-fynd â'r hyn mae defnyddwyr yn disgwyl i reoleiddio ei ddarparu ar eu cyfer. Mae yna gyfleoedd i gryfhau amddiffyniadau o fewn y system gyfredol a thrwy addasu'r Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae hyn yn cynnwys gwell systemau sy'n sicrhau bod cyfreithwyr yn parhau i fod yn gymwys trwy gydol eu gyrfaedd a chau'r bylchau yn y fframwaith rheoleiddio sy'n gwrthod mynediad i gwsmeriaid at unioniad wrth ddefnyddio darparwyd nad ydynt wedi eu rheoleiddio. Mae'r cyhoedd hefyd angen teimlo'n hyderus yn y sefydliadau sydd yno i'r diogelu. Blaenoriaeth glir yw lleihau oedi ar gyfer pobl sy'n gwneud cwynion i Ombwdsmon y Gyfraith, gan mai dyma ble mae rheoleiddio yn cyffwrdd y cyhoedd fwyaf uniongyrchol. Bydd hefyd yn bwysig i sicrhau bod cyrff rheoleiddio yn rhoi buddiannau'r cyhoedd a defnyddwyr yn ganolog i bopeth a wnânt, gan fod yn annibynnol o'r proffesiwn yn ddiwylliannol ac yn strwythurol. Mae hyder y cyhoedd hefyd yn mynnu bod gan bob un o'r cyrff rheoleiddio adnoddau digonol i wneud eu gwaith yn dda, ac maent yn cydweithio'n effeithiol i hybu amcanion cyfunol gydag uchelgais a chyflymder digonol.
10. Mae hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau cyfreithiol hefyd wedi ei effeithio gan faterion sydd tu hwnt i reolaeth rheolyddion, ond sydd er hynny'n effeithio ar yr amcanion rheoleiddiol. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau polisi ac effeithiolrwydd y system cyfiawnder. Oherwydd ei fod wedi cael cymaint o effaith ar amcanion rheoleiddio'r Ddeddf, ni fyddai'n gredadwy i beidio cydnabod y pryder eang ynghylch y system cymorth cyfreithiol, ac ynghylch y system cyfiawnder troseddol, a rhannau o'r system cyfiawnder sifil. Yn fwy eang, mae nifer o sylwebwyr wedi nodi beth maent yn ei ddisgrifio fel tuedd gofidus o leihad mewn parch tuag at y gyfraith a chyfreithwyr mewn trafodaethau cyhoeddus a dehongliad cynyddol o heriau domestig a byd-eang i reolaeth cyfraith. Fel y nodwyd uchod, mae gan y proffesiwn cyfreithiol gyfrifoldeb i weithredu mewn modd sy'n magu hyder y cyhoedd yn gyson. Fodd bynnag, mae angen i bob actor yn y sector, yn cynnwys rheolyddion, arddangos arweinyddiaeth a helpu addysgu'r cyhoedd ynghylch pwysigrwydd allweddol rheolaeth cyfraith a chyfraniad y proffesiynau cyfreithiol i economi a chymdeithas sy'n gweithio'n dda.

Gwell gwasanaethau

11. Po fwyaf effeithiol fydd defnyddwyr yn ymgysylltu â marchnadoedd, y cyfraf yw'r ysgogiad i ddarparwyr gynllunio gwasanaethau sy'n fwy hygyrch ac yn ymateb i anghenion pobl. Arweiniodd astudiaeth o'r farchnad gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) yn 2016⁷ at gyflwyno mesurau tryloywder gan y cyrff rheoleiddio o ran pris, ansawdd, gwasanaeth ac unioniad. Fodd bynnag, er gwaethaf gwella

⁷ CMA, Astudiaeth o'r Farchnad Gwasanaethau Cyfreithiol: Adroddiad Terfynol, Rhagfyr 2016.

tryloywder, mae cystadlu o ran pris yn dal yn wannach nag y dymunem, yn arbennig felly o ran amrywiad mawr mewn pris am wasanaethau tebyg. Yn ystod y ddegawd, mae siopa am y pris gorau wedi cynyddu, ond nid yw'r duedd hon wedi cyflymu ers astudiaeth y CMA⁸. Nid yw offer cymharu prisiau ar-lein wedi dod yn gyffredin. Byddai gwella arwyddion ar safon darparwyr yn helpu ysgogi mwy o gystadlu o ran prisiau, ond mae defnyddwyr yn dal heb fynediad at yr wybodaeth hon. Ar y cyfan, rydym yn asesu bod rhywfaint o gynnydd cyfyngedig wedi digwydd, ond mae yna lawer mwy y gall rheolyddion a darparwyd ei wneud i wella ymgysylltu â defnyddwyr a chystadlu o fewn y sector.

12. Awgryma ymchwil yr LSB bod lefelau cyffredinol o arloesedd, yn y cyfnod cyn y pandemig, yn sefydlog er gwaethaf diwygiadau i leihau rheoleiddio sydd wedi cael gwared ar gyfyngiadau ar fusnesau⁹. Ymysg darparwyr gwasanaeth, mae diwylliant yn ymddangos i fod yn fwy o rwystr arwyddocaol i arloesi na rheoleiddio. Yn wir, mae yna sawl enghraifft o arloesi blaengar, gyda ffocws ar ddefnyddwyr yn y sector, er ei fod wedi ei gyfyngu'n bennaf i'r ymylon ar hyn o bryd. Mae'r prif rwystrau rheoleiddiol sy'n bodoli yn dueddol o fod yn rhai 'meddal', fel llywio'r system reoleiddio. Ond gallai'r sector drechu'r rhain trwy gefnogi newydd-ddyfodiaid gyda gwybodaeth, blychau tywod, cronfeydd arloesi, strategaethau a mentrau tebyg. Mae'r fframwaith rheoleiddio goddefol a grëwyd gan y Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol yn fwy ffafriol i arloesi technolegol na rhai awdurdodaethau. Fodd bynnag, mae'n creu rhai anawsterau. Er enghraifft, datblygwyr technoleg a darparwyr sydd wedi eu lleoli dramor tu allan i gwmpas rheoleiddio, y ffocws ar reoleiddio seiliedig ar deitl yn hytrach na rheoleiddio seiliedig ar weithgaredd, y cymhlethdod sydd ynghlwm i lywio'r fframwaith reoleiddio a'r potensial ar gyfer gwahanol safonau o ganlyniad i reolyddion lluosog yn y sector. Gallai'r ffactorau hyn wneud arloeswyr yn gyndyn i ymuno â'r farchnad a chreu bylchau o ran diogelu defnyddwyr na all y cyrff rheoleiddio eu lliniaru.
13. Mae gan dechnoleg botensial drawsnewidiol prin i amharu ar y farchnad ac ehangu mynediad trwy ddileu cost o ddarparu gwasanaethau cyfreithiol. Fodd bynnag, gallai arwain at fwy o eithrio digidol oni bai yr ystyrir anghenion y rhai heb ddim neu fawr ddim lefel o alluedd digidol. Mae datgloi potensial technoleg i ehangu mynediad yn gofyn am fodloni cyfres o heriau. Un yw creu setiau data clir a thryloyw mae datblygwyd yn dibynnu arnynt i adeiladu ar ddatrysiadau newydd a allai fod yn fanteisiol i ddefnyddwyr. Gall data gefnogi cyflawniad gwasanaethau cyfreithiol cyfredol a helpu ysgogi arloesi. Yn ogystal, fydd defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau cyfreithiol ddim ond yn defnyddio technolegau os ydynt yn ymddiried ynddynt. Mae technolegau uwch, fel deallusrwydd artiffisial, yn cyflwyno heriau moesegol a rheoleiddiol, yn ogystal â chyfleoedd, sy'n gofyn am ymateb rheoleiddiol gofalus.

Covid-19

14. Mae effeithiau Covid-19 yn cyffwrdd ar nifer o'r heriau hyn. Mae'r pandemig yn cynyddu angen cyfreithiol, yn ehangu ac ymgladdu anghydraddoldeb cymdeithasol, ac yn bygwth cynaliadwyedd rhannau o'r proffesiwn. Mae yna risgiau posibl yn codi a allai ei gwneud yn anoddach i rai grwpiau gychwyn gyrfaoedd cyfreithiol a symud ymlaen i rolau uwch, gan roi'r system cyfiawnder dan straen a chreu heriau ar gyfer rheolyddion a chyrrff

⁸ Yn seiliedig ar Arolwg Orlhain LSCP – gweler y gyfrol tystiolaeth.

⁹ LSB, Technoleg ac Arloesi mewn Gwasanaethau Cyfreithiol – Prif Adroddiad, 2018.

cwynion a disgyblu. Fel y clefyd ei hun, mae'r pandemig yn amlygu ac yn ymosod ar wendidau cyfredol. Yn aml, nid yw'r heriau yn newydd ond yn fwy dwys, ac maent wedi bod yn rhai sydd angen eu taclo ar frys. Fodd bynnag, mae hefyd yn bosibl y gallai Covid-19 brofi i fod yn drobwynt sy'n arwain at newid positif. Fe addasodd y sector yn hynod o gyflym i effaith y cyfyngiadau symud gan ysgogi ton o arloesi mewn mater o fisoedd a allai fod wedi cymryd blynyddoedd fel arall. Gallai newidiadau parhaol mewn arferion gwaith gefnogi gweithlu mwy amrywiol.

15. Mae rhai'n dadlau bod y sector angen cyfnod o sefydlogrwydd i ddod dros effeithiau'r pandemig. Fodd bynnag, rydym angen cipio'r cyfleoedd sy'n codi o adolygiadau polisi mawr i gymorth cyfreithiol, y system cyfiawnder troseddol ac agweddau eraill o bolisi cyhoeddus. Ni fydd cymdeithas yn caniatáu i'r sector gyfreithiol barhau i symud ymlaen ar wella amrywiaeth; mae angen cam mawr ymlaen. Mae cymdeithas ei hun wedi newid, ac mae disgywiliadau'n wahanol mewn sawl ffordd. O gael yr offer cywir, gallai defnyddwyr greu amgylchedd mwy cystadleuol a fydd yn gorfodi newidiadau i ddarparu gwasanaethau sy'n bodloni eu hanghenion yn well. Mae gan ddatblygiadau mewn technoleg y potensial i ddileu cost o ddarpariaeth gwasanaethau cyfreithiol yn arwain at newidiadau a allai roi'r gyfraith i ddwylo mwy o bobl. Bydd hefyd angen i reoleiddio esblygu, i feithrin y newid hwn ac i'w addasu.
16. Bydd gwasanaethau cyfreithiol yn allweddol i adferiad y genedl o'r pandemig gan eu bod yn ategu economi sy'n gweithio'n dda, rheolaeth cyfraith a gwead ein cymdeithas. Yn ei dro, bydd rheoleiddio effeithiol yn cefnogi'r sector i ateb anghenion cymdeithas yn well trwy roi hyder i'r cyhoedd eu bod wedi eu diogelu'n dda, gan hyrwyddo amgylchedd amrywiol a chynhwysol i'w rhai sy'n gweithio yn y gyfraith, a chreu amodau marchnad sy'n meithrin arloesi ac yn grymuso defnyddwyr i ganfod cynigion da sy'n bodloni eu hanghenion.

Cyflawniadau

17. Roedd Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 yn cynrychioli newid mawr o'r system reoleiddio flaenorol. Gweledigaeth y llywodraeth oedd "marchnad gwasanaethau cyfreithiol ble mae rhagoriaeth yn dal i gael ei ddarparu; a marchnad sy'n ymatebol, ac yn blaenoriaethu'r cwsmer"¹⁰. Roedd elfennau allweddol o'r diwygiadau'n cynnwys: system reoleiddio fwy syml, a fyddai'n fwy annibynnol o'r proffesiwn cyfreithiol; creu gwasanaeth trin cwynion annibynnol, unigol; a dileu cyfyngiadau ar gystadlu i ganiatáu dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid.
18. Mae'r sector heb gyflawni'n llawn ar y weledigaeth hon eto, ond credwn y bu yna welliannau arwyddocaol ar gyfer dinasyddion, defnyddwyr a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol ar hyd y ddegawd. Hefyd yn bwysig, nid yw problemau yr oedd beirniaid y Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol wedi eu rhagweld fel lleihad mewn safonau a cholli enw da rhyngwladol y sector, wedi dod i'r amlwg.
19. Yn wir, mae'r diwygiadau wedi eu dilyn yn agos yn rhyngwladol. Mewn nifer o awdurdodaethau allweddol, mae hunan-reoleiddio a chyfyngiadau ar arferion busnes yn raddol ildio i fodolau rheoleiddio annibynnol a rhyddfrydoli'r farchnad. Gallai hyn ddod yn fwyfwy pwysig wrth i'r Deyrnas Unedig drafod cytundebau masnach newydd gyda phartneriaid wedi ymadael â'r UE.
20. Isod, rydym yn nodi pedwar maes eang ein llwyddiant.

Dewis i ddefnyddwyr

21. Mae diwygiadau rheoleiddiol sy'n caniatáu i weithwyr cyfreithwyr proffesiynol sefydlu busnes a chynnig mwy o amrywiaeth o wasanaethau wedi darparu mwy o ddewis i ddefnyddwyr. Er enghraifft, gall bargyfreithwyr sefydlu endidau ac ABS, ymarfer ymglyfreitha a chynnig detholiad mwy cynhwysfawr o waith mynediad cyhoeddus. Gall swyddogion gweithredol cyfreithiol redeg busnesau a darparu gwasanaethau cyfreithiol mewn mwy o feysydd gwaith. Ar yr un pryd, mae cyfrifyddion wedi eu hawdurdodi i gyflawni gwaith profiant. Mae'r newidiadau hyn wedi cyd-fynd â newid mwy eang mewn cymdeithas ble mae pobl yn disgwyl mwy o ddewis ac yn fwy pendant yn eu rôl fel defnyddwyr.
22. Mae yna dros 1,400 ABS, sy'n cynrychioli tua un o bob deg cwmni rheoledig. Mae'r model wedi ei fabwysiadu'n llwyddiannus gan lywodraeth leol, prifysgolion ac elusennau, yn ogystal ag endidau masnachol. Awgryma ein harolygon fod ABS yn fwy arloesol na chwmnïau cyfreithiol traddodiadol¹¹. Mae gan y Pedwar Mawr o'r cwmnïau cyfrifyddu oll drwyddedau ABS, ac mae eu graddfa ac ymagwedd amlddisgyblaethol yn cyflwyno potensial ar gyfer amhariad yn y farchnad gorfforaethol. Dengys y data sydd ar gael nad oes gan ABS gofnod disgyblaethol dim gwaeth na mathau eraill o gwmni cyfreithiol, sy'n awgrymu nad ydynt wedi achosi i safonau ddirywio fel yr ofnwyd.¹²

¹⁰ Adran Materion Cyfansoddiadol, The Future of Legal Services: Putting Consumers First, Hydref 2005.

¹¹ LSB, Technoleg ac Arloesi mewn Gwasanaethau Cyfreithiol – Prif Adroddiad, 2018.

¹² SRA, Upholding Professional Standards 2017/18, Gorffennaf 2019.

Gwell profiad i ddefnyddwyr

23. Er bod profiadau'n amrywio ar draws defnyddwyr gwasanaethau cyfreithiol, ar y cyfan, dengys arolygon bod defnyddwyr yn fwy bodlon gyda'r gwasanaeth a dderbyniont, safon y cyngor a'r gwerth am arian nag yr oeddent ddeng mlynedd yn ôl.
24. Mae'n haws i ddefnyddwyr lywio'r farchnad. Mae gwefan Legal Choices yn helpu pobl i ddeall eu hawliau fel dinasyddion a sut i ddewis cyfreithwyr, gan ragori ar ei darged o 2-3 miliwn o ymweliadau yn gynt na'r targed. Mae yna symud mawr wedi bod oddi wrth gyfraddau fesul awr i gytundebau ffi sefydlog sy'n cynnig mwy o sicrwydd i ddefnyddwyr¹³. Mae pecyn o ddiwygiadau yn cynyddu o ran tryloywder yn y farchnad gyda thystiolaeth bod mwy o ddefnyddwyr yn siopa am y pris gorau ac yn ei chael yn haws i wneud hynny¹⁴.

Creu'r amodau ar gyfer arloesi

25. Mae ymdrech gyfunol wedi arwain at ddileu rhwystrau i fynediad a rheoleiddio diangen. Mae hyn yn cynnwys newidiadau mawr i godau ymddygiad nifer o gyrff rheoleiddio a'r llwybrau i gymhwyso. Roedd nifer o'r diwygiadau hyn yn ddadleuol, ond does yna ddim tystiolaeth eu bod wedi arwain at ddeilliannau niweidiol i ddefnyddwyr.
26. Rhoddodd y CMA adroddiad rhagorol yn bennaf i'r sector ar rwystrau i fynediad a gadael¹⁵. Awgryma tystiolaeth o'r arolwg gwmp sylweddol dros gyfnod o amser mewn darparwyr yn nodi cyfyngiadau rheoleiddio fel rhwystr i arloesi. Ar yr un pryd, mae darparwyr yn adrodd yn gynyddol am farchnad gystadleuol fel ffactor sy'n ysgogi arloesi.
27. Yn ystod Covid-19, ni fu angen newidiadau brys arwyddocaol i reolau cyrff rheoleiddio oedd yn atal darparwyr rhag addasu i gyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol. Yn wir, mae darparwyr a sefydliadau cyhoeddus wedi addasu'n hynod gyflym dan amgylchiadau heriol. Yn ddiweddar, cafwyd cefnogaeth ariannol ac ymarfer sylweddol gan y llywodraeth ar gyfer technoleg y gyfraith, tra bod creu blychau tywod gan LawtechUK a rhai cyrff rheoleiddio yn cefnogi arloesi. Mae yna arwyddion bod manteision datblygiadau technolegol yn dechrau cyrraedd tu hwnt i'r sector gorfforaethol ac yn cyrraedd unigolion a busnesau bach.

Llwyddiant economaidd

28. Yn ystod y ddegawd mae'r sector wedi perfformio'n gryf mewn telerau economaidd gyda throsiant yn cynyddu 22% a chyflogaeth o 24%¹⁶.
29. Mae cwmnïau cyfreithiol yn masnachu ar y farchnad stoc, tra bos buddsoddwyr allanol, ecwiti preifat ac arianwyr ymglyfreitha yn darparu ffynonellau cyfalaf newydd i'r sector.

¹³ Yn seiliedig ar Arolwg Orlhain LSCP – gweler y gyfrol tystiolaeth.

¹⁴ Yn seiliedig ar Arolwg Orlhain LSCP – gweler y gyfrol tystiolaeth.

¹⁵ CMA, Astudiaeth o'r Farchnad Gwasanaethau Cyfreithiol: Adroddiad Terfynol, Rhagfyr 2016.

¹⁶ Yn seiliedig ar ystadegau ONS – gweler y gyfrol tystiolaeth.

30. Mae'r sector wedi parhau i berfformio'n dda yn rhyngwladol. Mae allforion net gwasanaethau cyfreithiol y Deyrnas Unedig wedi dyblu yn ystod y ddegawd ddiwethaf. Mae Cymru a Lloegr wedi cynnal ei safle fel y dewis cyntaf ar gyfer datrys anghydfodau. Mae'r awdurdodaeth yn dal i berfformio'n dda ar fesurau rhyngwladol ar lefelau isel o lygredd a hyder yn y farnwriaeth¹⁷.

¹⁷ Yn seiliedig ar arolygo gan Brosiect Cyfiawnder y Byd a Banc y Byd – gweler y gyfrol tystiolaeth.

Heriau

31. Gan edrych ar draws y dystiolaeth a gasglwyd gennym, a'n ymgysylltiad gyda'r Panel Cyhoeddus a nifer arwyddocaol o randdeiliaid, rydym wedi nodi naw o heriau allweddol y dylai strategaeth ar gyfer y sector yn y dyfodol geisio ymrafael â nhw.
32. Rydym wedi trefnu'r heriau hyn dan dair thema strategol: canlyniadau mwy teg, mwy o hyder a gwell gwasanaethau. Fodd bynnag, mae nifer o'r heriau hyn yn ymwneud â phob un o'r tair thema. Ni ellir edrych ar unrhyw faes yn unigol – rhaid dwyn y cyfan ynghyd a delio â nhw mewn modd integredig. Er enghraifft, mae cynnydd araf ar wella amrywiaeth a chreu diwylliant cynhwysol yn y proffesiwn yn codi cwestiynau sylfaenol o ran tegwch. Mae hefyd yn tanseilio hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau cyfreithiol ac yn llesteirio arloesi, sy'n atal cwmnïau cyfreithiol rhag bodloni anghenion y cymunedau amrywiol maent yn eu gwasanaethu'n llawn.

Canlyniadau mwy teg

Taclo annhegwch sy'n niweidio'r cyhoedd a'r proffesiwn

- 1 – Lleihau angen cyfreithiol na fodlonir sy'n gyffredin ar draws rhannau helaeth o gymdeithas
- 2 – Cyflawni gwell deilliannau ar gyfer pobl sy'n profi mwy o anfantais
- 3 – Diosg rhwystrau i broffesiwn amrywiol a chynhwysol ar bob lefel

Gwella hyder

Adeiladu hyder y cyhoedd a phroffesiynol ar seiliau cadarn

- 4 – Sicrhau gwasanaethau cyfreithiol o ansawdd uchel a moeseg broffesiynol gryf
- 5 – Cau bylchau mewn diogelu'r cyhoedd
- 6 – Diwygio'r system cyfiawnder ac ail-lunio'r tirlun rheoleiddio

Gwell gwasanaethau

Galluogi defnyddwyr i ysgogi arloesi cyfrifol

- 7 – Grymuso defnyddwyr i gaffael gwasanaethau o ansawdd uchel a fforddiadwy
- 8 – Meithrin arloesi sy'n dylunio gwasanaethau o amgylch anghenion defnyddwyr
- 9 – Cefnogi defnydd cyfrifol o dechnoleg sy'n sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd

Canlyniadau mwy teg

1 – Lleihau angen cyfreithiol na fodlonir sy'n gyffredin ar draws cymdeithas

33. Yr her ganolog yw canfod dulliau o roi'r gyfraith yn nwylo mwy o bobl mewn cyfnod pan mae Covid-19 yn creu angen cyfreithiol ehangach, ond mae gan bobl lai o arian i dalu am wasanaethau cyfreithiol. Mae rhwystrau i fynediad yn mynd tu hwnt i gost, gan gofleidio galluedd cyfreithiol ac i ba raddau mae'r farchnad yn cysylltu'n llwyddiannus gyda'i gwsmeriaid trwy ddarparu gwasanaethau sy'n bodloni eu hanghenion. Ac eto, i nifer o bobl, mae cost yn rhwystr anorchfygol i fynediad. Er y gall yr heriau mynediad hyn fod yn fwy llym heddiw, nid ydynt yn newydd. Yn wir, y teimlad cyffredinol ymysg rhanddeiliaid wy bod graddfa'r her mynediad o leiaf cymaint heddiw, os nad yn fwy, na phan ddaeth y Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol i rym.
34. Canfu arolwg mawr yr LSB o anghenion cyfreithiol bod 3 o bob 10 o bobl sy'n wynebu materion cyfreithiol – tua 3.6 miliwn o ddinasyddion yng Nghymru a Lloegr pob blwyddyn – yn methu â bodloni eu hanghenion cyfreithiol¹⁸. Mae hyn yn digwydd naill ai oherwydd nad ydynt yn cael cymorth proffesiynol, ei bod yn cymryd gormod o amser i ddatrys y mater, neu nad ydynt yn cael yr wybodaeth neu gymorth sydd angen. Mae Rhwydwaith Canolfannau'r Gyfraith wedi amcangyfrif bod miliynau o bobl yn dal yn syrthio trwy'r 'bwlch cyfiawnder' ble na allant fforddio gwasanaethau cyfreithiol ond nad ydynt yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol¹⁹.
35. Mae trafferthion o ran cael mynediad i wasanaethau cyfreithiol hefyd yn wynebu busnesau bach²⁰. Dim ond chwarter sy'n cael cymorth proffesiynol i ddelio gyda materion cyfreithiol, tra bod hanner yn ceisio delio â nhw eu hunain. Ac mae dim ond un o bob deg o fusnesau bach yn ystyried cyfreithwyr i fod yn gost effeithiol. Ar ei fwyaf eithafol, gall caffael cyngor cyfreithiol yn amserol olygu goroesi neu fethu ar gyfer busnesau bach.
36. Mae adrannau mawr o'r boblogaeth a busnesau bach yn gweld gwasanaethau cyfreithiol fel rhywbeth sydd tu hwnt i'w cyrraedd oherwydd na allant fforddio cymorth gan gyfreithwyr. Yn ein Harolwg Anghenion Cyfreithiol Unigol, cytunodd 87% fod 'cyfreithwyr yn rhy ddrud i'r rhan fwyaf o bobl eu defnyddio'²¹. Mae'r arolwg yn dangos bod y cyhoedd yn ystyried y system cyfiawnder i fod yn sylfaenol annheg. Cytunodd 82% fod 'pobl gyda llai o arian yn gyffredinol yn cael canlyniad gwaeth' ac 88% bod 'y gyfraith yn gêm ble mae'r mwyaf medrus a dyfeisgar yn fwy tebygol o gael yr hyn maent ei eisiau'. Atseiniodd ein Panel Cyhoeddus y teimlad bod y gyfraith yn risg nad yw'n ffafrio pobl gyffredin²². Mae data arolwg yn cefnogi'r dehongliadau hyn: dengys Arolwg Anghenion Cyfreithiol Unigol yr LSB pan fydd pobl yn cael cyngor proffesiynol, maent yn fwy tebygol o gredu eu bod yn derbyn canlyniad mwy teg.

¹⁸ YouGov, Anghenion Cyfreithiol Unigolion yng Nghymru a Lloegr. Paratowyd ar gyfer yr LSB a Chymdeithas y Cyfreithwyr, Ionawr 2020.

¹⁹ Rhwydwaith Canolfannau'r Gyfraith, Justice For All, Gorffennaf 2020.

²⁰ Holl ffigurau gan BMG Research, The Legal Needs of Small Businesses 2013-17. Paratowyd ar gyfer LSB, 2018.

²¹ YouGov, Anghenion Cyfreithiol Unigolion yng Nghymru a Lloegr. Paratowyd ar gyfer yr LSB a Chymdeithas y Cyfreithwyr, Ionawr 2020.

²² Ymchwil Cymunedol, Adran Strategaeth LSB: Adroddiad y Panel Cyhoeddus, Awst 2020.

Panel Cyhoeddus yr LSB

"Mae cael mynediad i wasanaethau cyfreithiol yn rhywbeth sydd mor bell tu hwnt i gwmpas yr hyn all hyd yn oed person cyffredin freuddwydio am ei fforddio. Yn debyg iawn i gamblo, does dim sicrwydd y bydd yn gweithio, mae'n ormod o risg. Mae'r gyfraith yma i bawb ohonom, nid dim ond y cyfoethog."

37. Tra bod rheoleiddio yn gallu bod yn rhwystr i fynediad trwy ychwanegu at gost gwasanaethau cyfreithiol a llesteirio arloesi, nid dyma yw achos gwraidd angen cyfreithiol nad yw wedi ei fodloni. Yn hytrach, mae anallu cymaint o ddinasyddion i fforddio gwasanaethau cyfreithiol wedi ei wreiddio mewn anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd ehangach. Fodd bynnag mae diffyg mynediad at gyfiawnder yn cyfrannu at ddirywiad cyfiawnder cymdeithasol. Pan fydd materion cyfreithiol beunyddiol heb eu datrys, mae hyn yn achosi niwed i sefyllfa ariannol pobl, eu perthnasau, a'u hiechyd corfforol a meddyliol. Gall hyn, yn ei dro, ysgogi problemau cymdeithasol eraill, fel diweithdra a throsedd. Mae hyn yn oll yn dod gyda chost ariannol i gymdeithas trwy danseilio cynhyrchiant economaidd ac ychwanegu at gost gwasanaethau tu allan i'r system cyfiawnder fel gofal iechyd a lles cymdeithasol. Mae hefyd yn gwneud cymdeithas yn dlotach trwy danseilio ymddiriedaeth mewn rheolaeth cyfraith a'n sefydliadau cyhoeddus.
38. Er gwaethaf y 'costau system gyfan' mae materion cymorth cyfreithiol yn achosi, roedd cymorth cyfreithiol sifil wedi bron â haneru (-46%) mewn telerau go iawn rhwng 2010/11 a 2015/16. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a welodd rhai o'r colledion mwyaf i'w gyllideb ar draws San Steffan yn ystod y blynyddoedd o gynt. Rydym wedi gweld beirniadaeth helaeth bod y diwygiadau LASPO²³ wedi achosi i nifer o gyfreithwyr gael eu gorfodi i roi'r gorau i waith cymorth cyfreithiol. Mae hyn wedi arwain at 'anialdir cynghori' mewn meysydd fel tai a gofal cymunedol²⁴. Rydym wedi gweld cynnydd mewn ymgyfreithwyr personol sydd nawr yn arferol mewn nifer o achosion. Mae sefydliadau di-elw hefyd wedi dioddef o ganlyniad i doriadau mewn cyllid.
39. Ers 2015/16, mae'r gyllideb cymorth cyfreithiol wedi cynyddu 21% mewn telerau real, ac mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi sefydlu Strategaeth Cefnogaeth Gyfreithiol. Mae'r pwyslais diweddar ar atal, ymyrraeth gynnar a datrysiadau fel partneriaethau cyfiawnder iechyd wedi eu croesawu. Mae'r sector cynghori wedi addasu o fewn ei gyfyngiadau adnoddau, ac fe fu twf i'w groesawu mewn clinigau cyfraith mewn a chefnogaeth ar gyfer ymgyfreithwyr personol gan brifysgolion. Fodd bynnag, mae cydsyniad cyffredinol bod angen gwneud mwy i sicrhau cydbwysedd. Mae adolygiadau sydd newydd eu cyhoeddi o gymorth cyfreithiol yn digwydd yn erbyn y cefndir hwn.
40. Gallai cystadlu mwy brwd ehangu mynediad trwy ysgogi arloesi a gostwng prisiau. Fodd bynnag, y dystiolaeth gynnar o'r diwygiadau tryloywder a gyflwynwyd ers Rhagfyr 2018 – y brif ymyrraeth o ran cystadlu yn y sector hyd yma – yw nad yw deilliannau'r farchnad

²³ Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

²⁴ Dadansoddiad Cymdeithas y Gyfraith: <https://www.lawsociety.org.uk/en/campaigns/legal-aid-deserts#:~:text=Our%20legal%20aid%20deserts%20campaign,they're%20legally%20entitled%20to.>

ar gyfer defnyddwyr yn gwella eto. Er y dylai ymdrechion i rymuso defnyddwyr barhau, felly hefyd nid yw'n realistig i ddisgwyl i rymoedd y farchnad fod yn gwbl gyfrifol am lenwi'r holl fylchau mewn darpariaeth. Mae cymhlethdod gwaelodol nifer o faterion cyfreithiol a'r ymdrech ac arbenigedd sydd angen i'w datrys yn golygu y bydd cymorth proffesiynol yn dal i fod allan o gyrraedd ar gyfer rhannau mawr o'r boblogaeth i'w ariannu'n breifat. Yn aml bydd cymdeithas yn troi at yswiriant fel ffodd i ddatrys cost ariannol digwyddiadau annisgwyl a drud fel salwch ac adfeiliad tai. Fodd bynnag, anaml iawn y defnyddir yswiriant costau cyfreithiol i dalu am wasanaethau cyfreithiol, yn wahanol i rai awdurdodaethau eraill, er gwaethaf y ffaith fod polisïau ar gael yn eang.

41. Mae'r graff pennawd ar drosiant yn y sector yn cynrychioli darlun arwynebol o dwf iach. Mae hyn yn effeithio'n bennaf ar berfformiad cryf gan y sector gorfforaethol. Dywedodd arbenigwyr wrthym fod y farchnad wedi ei rhannu'n gynyddol ar draws gwahanol haenau gyda rhai rhannau'n dioddef, hyd yn oed cyn Covid-19. Mae yna bryderon ynghylch cynaliadwyedd y proffesiwn, yn arbennig o ble daw'r genhedlaeth nesaf o gyfreithwyr troseddol a lles cymdeithasol i wasanaethu anghenion cyfreithiol pobl. Wrth i fyfyrwyr wynebu'r realiti o ddegau ar filoedd o bunnoedd o ddyledion ar gymhwyso, nid yw'n fawr o syndod bod y prifysgolion y siaradom â nhw di rhoi gwybod i ni fod mwy o fyfyrwyr yn dilyn gyrfaedd mewn ardaloedd ble mae'r tâl yn llawer gwell. Mae llwyddiant masnachol y sector corfforaethol yn cyfrannu cryn dipyn i iechyd economaidd ehangach y genedl a'i enw da rhyngwladol. Mae'r sector gorfforaethol hefyd yn gwneud buddsoddiad gwirfoddol arwyddocaol mewn mentrau pro bono, nad yw'n cael ei gydnabod ar bob cyfle. Er hynny, fe glywsom alwadau hefyd i'r rhan yma o'r sector wneud mwy o gyfraniad i ehangu mynediad i wasanaethau cyfreithiol ar gyfer pobl gyffredin.

- **33%** o oedolion yn cytuno "na all pobl fel fi fforddio help gan gyfreithiwr"
- **36%** o oedolion ddim yn hyderus y gallent sicrhau canlyniad teg a phositif mewn gwahanol senarios cyfreithiol
- **50%** o fusnesau bach yn delio â materion cyfreithiol eu hunain
- **79^{ain}** – graddiad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar hygyrchedd a fforddiadwyedd cyfiawnder sifil
- **3.6 miliwn** o oedolion yng Nghymru a Lloegr gydag angen cyfreithiol heb ei fodloni pob blwyddyn
- **8.6 miliwn** o oedolion wedi eu hamcangyfrif i fod ag yswiriant treuliau cyfreithiol

2 – Cyflawni gwell deilliannau ar gyfer grwpiau sy'n profi anfantais fwy dwys

42. Mae'r Comisiwn Mudol Cymdeithasol yn ystyried bod mudoledd cymdeithasol wedi marweiddio yn ystod y pedair blynedd diwethaf ar bron i bob cam o enedigaeth i waith²⁵. Dadleua'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol bod y grwpiau o bobl sydd fwyaf dan risg mewn perygl o gael eu hanghofio a methu â dianc anfantais. Canfu ei

²⁵ Y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, State of the Nation 2018-2019: Social Mobility in Great Britain, Ebrill 2019.

adroddiad 'State of the Nation'²⁶ fod rhagolygon ar gyfer pobl anabl, rhai lleiafrifoedd ethnig a phlant o gefndiroedd tlotach wedi gwaethygu mewn sawl maes o fywyd, a bod perygl y bydd yr anghydraddoldeb hwn yn ymsefydlu am genedlaethau i ddod, gan greu cymdeithas ddeuol.

43. Yn erbyn y cefndir hwn, ar bob cam mewn mater cyfreithiol, o brofi angen i dderbyn lefel dda o wasanaeth, dengys ein hymchwil²⁷ fod rhannau penodol o gymdeithas yn profi anfantais fwy dwys yn gyson. Mae'r un grwpiau poblogaeth – cymunedau BAME, pobl ag anableddau, pobl iau, rhai ar incwm is a phobl gyda lefel isel o addysg – yn aml yn ymddangos yn ein data i fod yn waeth eu byd.
44. Yn gyntaf, mae'r grwpiau hyn yn dueddol o wynebu problemau cyfreithiol yn amlach. Fodd bynnag, mae ffactorau economaidd-gymdeithasol hefyd yn llunio'r mathau o broblemau cyfreithiol mae grwpiau penodol yn y boblogaeth yn wynebu. Mae cymunedau Duon ac Asiaidd yn llawer mwy tebygol o brofi materion cyfreithiol yn gysylltiedig gyda hawliau ac yn ymwneud ag anghydfodau. Yn ogystal â delio gyda materion cyfreithiol mwy cymhleth, mae cymunedau BAME hefyd ymysg y rhai sydd â'r lefelau uchaf o angen cyfreithiol heb ei fodloni. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer pobl iau, rhai ar incwm is a'r rhai sydd â lefel isel o addysg.
45. Nesaf, mae rhai grwpiau o'r boblogaeth yn ei chael yn anoddach delio gyda materion cyfreithiol. Mae'r cysyniad o alluedd cyfreithiol yn cynnwys pobl yn credu y gallant ddelfio gyda sefyllfaoedd anodd mewn cyd-destun cyfreithiol, hyder y gallant gyflawni canlyniadau teg a phositif yn bersonol, a'u dehongliad o hygyrchedd y system cyfiawnder. Mae data'r arolwg yn sefydlu cyswllt rhwng galluedd cyfreithiol is ac angen uwch heb ei fodloni. Mae gan fenywod, rhai sydd dan 55, pobl ag anableddau a phobl gydag incwm is lai o alluedd cyfreithiol.

Panel Cyhoeddus yr LSB

"Fel cenedl gymdeithasol gyfrifol, rydym angen sicrhau bod y bregus a'r rhai mewn amddifadedd cymdeithasol yn gallu cael mynediad i wasanaethau cyfreithiol."

46. O bosibl oherwydd y math o faterion cyfreithiol maent yn wynebu, mae pobl iau, rhaid grwpiau BAME a phobl ag anableddau yn fwy tebygol o geisio cymorth proffesiynol nag eraill. Fodd bynnag, mae pob un o'r grwpiau hyn, ynghyd â'r rhai ar incwm is, hefyd yn fwy tebygol o geisio ond methu â chael cyngor. Mae cymunedau BAME yn llawer mwy tebygol o fenthyg i dalu am wasanaethau cyfreithiol, tra bod ymatebwyr Gwyn yn fwy tebygol o ddefnyddio cynilion, gan awgrymu bod cyngor cyfreithiol yn cael mwy o effaith ar eu sefyllfa ariannol.

²⁶ Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Ai yw Prydain yn Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol, 2018.

²⁷ Daw'r holl ystadegau yn yr adran hon o'r ffynhonnell ganlynol, oni bai y nodir fel arall: YouGov, Anghenion Cyfreithiol Unigolion yng Nghymru a Lloegr. Paratowyd ar gyfer yr LSB a Chymdeithas y Cyfreithwyr, Ionawr 2020.

47. Mae cymunedau BAME yn llai bodlon gyda'r gwasanaeth cwsmeriaid a dderbyniont, ansawdd y cyngor a'r gwerth am arian²⁸. Mae gan gymunedau BAME lai o hyder mewn achwyn am gyfreithwyr²⁹ ond maent yn atebol am 1 o bob 5 o ddefnyddwyr gwasanaeth Ombwdsmon y Gyfraith³⁰. Mae bron i 3 o bob 10 achwynwr i Ombwdsmon y Gyfraith yn adrodd bod ganddynt nam neu anabledd. Er ei bod yn ddiddorol bod y grwpiau hyn yn cyrraedd Ombwdsmon y Gyfraith, mae'n codi cwestiynau o ran achosion sylfaenol eu hanfodlonrwydd gyda darparwyr gwasanaeth.
48. Yn olaf, mae Covid-19 yn ehangu ac ymsefydlu anghydraddoldebau cyfredol, gan greu anfantais ddyfnach ar gyfer y rhai sy'n waeth eu byd mewn cymdeithas ac yn ymchwyddo eithriad y rhai gyda llythrennedd digidol isel neu nad oedd ganddynt fynediad at dechnoleg cyn y pandemig. Fodd bynnag, yn ogystal, mae rhai grwpiau newydd o bobl yn sydyn yn canfod eu hunain yn wynebu caledi am y tro cyntaf. Mae nifer o faterion ble mae'r angen cyfreithiol heb ei fodloni ar ei fwyaf – tai, budd-daliadau, teulu, cyflogaeth – yn rhai ble mae Covid-19 yn creu hyd yn oed mwy o alw am help.
- **12%** o ymatebwyr Du ac Asiaidd wedi wynebu mater yn ymwneud â'u hawliau cyfreithiol yn ystod y pedair blynedd diwethaf o gymharu â 5% o ymatebwyr Gwyn
 - **20%** o bobl 18-29 oed ddim wedi ceisio cymorth proffesiynol oherwydd nad oeddynt yn gwybod ble i fynd o gymharu â 6% o'r rhai 65+ oed
 - **34%** o bobl ar incwm o £32k neu lai gydag angen cyfreithiol heb ei fodloni o gymharu â 26% yn ennill £60k neu fwy
 - **39%** o ymatebwyr Du Affricanaidd yn datgan y byddent yn ymddiried mewn cyfreithwyr i ddweud y gwir o gymharu â 68% o ymatebwyr Gwyn
 - **42%** o ymatebwyr Du wedi talu am wasanaethau cyfreithiol trwy fenthyca o gymharu â 10% o ymatebwyr Gwyn

3 – Diosg rhwystrau i broffesiwn amrywiol a chynhwysol ar bob lefel

49. Mae ein dadansoddiad o ddata a gyhoeddwyd³¹ yn creu darlun cymysg o gyfansoddiad y proffesiwn. Yn benodol, mae cyflymder cynnydd yn ystod y ddegawd ddiwethaf o ran cau bylchau cyrhaeddiad ar lefelau uwch y proffesiwn a'r farnwriaeth wedi bod yn araf.
50. Cafwyd rhywfaint o lwyddiant. Nododd y flwyddyn 2019 gan mlynedd o fenywod yn gweithio yn y gyfraith, ond hefyd y garreg filltir o gael mwy o gyfreithwyr benywaidd na gwrywaidd am y tro cyntaf. O gymharu â chyfartaledd gweithlu'r Deyrnas Unedig ble cyfrannau uwch o gyfreithwyr BAME yn y rhan fwyaf o grwpiau proffesiynol, tra bod yna gydraddoldeb o ran cyfreithwyr du a bargyfreithwyr du ar y sail yma. Mae yna fwy o gyfreithwyr LGBTQ+ na chyfartaledd poblogaeth y Deyrnas Unedig. Mae gan rai grwpiau proffesiynol hanes arbennig o gryf ar nodweddion gwarchoddedig penodol: mae tri chwarter swyddogion gweithredol cyfreithiol a throsgludiaethwyr trwyddedig yn fenywaidd, tra bod tri o bob deg cyfreithiwr costau o gefndir BAME.

²⁸ Yn seiliedig ar Arolwg Orlhain LSCP – gweler y gyfrol tystiolaeth.

²⁹ Yn seiliedig ar Arolwg Orlhain LSCP – gweler y gyfrol tystiolaeth.

³⁰ Mae data Ombwdsmon y Gyfraith ar gael yn ei adroddiad blynyddol ac ar ei wefan.

³¹ Gweler adaran amrywiaeth a chynhwysiant y dystiolaeth ar gyfer yr holl ystadegau oni bai y nodir fel arall.

51. Fodd bynnag, mae llai o gynrychiolaeth i rai grwpiau. Fe ymddengys bod y gyfran o gyfreithwyr anabl yn llawer is na chyfartaledd gweithlu'r Deyrnas Unedig. Canfu astudiaeth gan Brifysgol Caerdydd³² fod cyfreithwyr gydag anabledau yn wynebu gwahaniaethu dyddiol oherwydd anwybodaeth a rhagfarn ddiarwybod yn ogystal â rhagfarn agored. Mae yna gynrychiolaeth ormodol sylweddol o gyfreithwyr a addysgwyd yn breifat - 40% o notariaid y Deyrnas Unedig, 37% o fargyfreithwyr a 21% o gyfreithwyr wedi mynychu ysgolion ble talwyd ffi. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd poblogaeth y Deyrnas Unedig o 7%, er bod hyn yn gostwng yn raddol.
52. Mae materion o hyd o ran dargadw a bylchau sylweddol mewn cynnydd i rolau uwch. Er enghraifft, mae hanner cyfreithwyr yn fenywod, ond dim ond traean o bartneriaid. A, tra bod 38% o fargyfreithwyr yn fenywod, dim ond 16% sy'n CFau. Fe adlewyrchir hyn mewn bwloch cyflog rhwng y rhywiau o 20% ar draws proffesiynau cyfreithiol, sy'n sefydlog heb wella. Mae'r cyflymder o ran cau bylchau wedi amrywio ar draws y proffesiwn. Er enghraifft, roedd cynnydd o 10% mewn partneriaid cyfreithwyr benywaidd rhwng 2014 hyd 2019, ond dim ond 3.2% o gynnydd mewn CFau benywaidd rhwng 2015 a 2019. Er bod yna'r un gyfran o bartneriaid BAME â'r boblogaeth gyffredinol o gyfreithwyr, dim ond 9% o CFau sy'n BAME o gymharu â 15% o'r holl fargyfreithwyr, ac mae'r BSB wedi nodi cynnydd araf o ran cau'r bwloch.
53. Mae mynd i ysgol â ffioedd neu fod â rhiant mewn galwedigaeth gyfreithiol yn fantais nodedig o ran cynnydd gyrfa ar draws y sector. Fel y sefydlwyd mewn adroddiad³³ gan y Fforwm amrywiaeth Barnwrol, y mae'r LSB n aelod ohono, mar amrywiaeth barnwrol yn cynyddu'n raddol ac fe gafwyd cynnydd ar wneud y broses benodi yn fwy teg, ond mae menywod a grwpiau BAME yn dal heb gynrychiolaeth ddigonol, yn arbennig mewn rolau barwnol uwch. Mae gan y rhan fwyaf o farnwyr llysoedd gefndir fel bargyfreithwyr ac mae cynrychiolaeth cyfreithwyr yn cwmpo ar draws y broses ddethol farnwrol.

Panel Cyhoeddus yr LSB

Mae amrywiaeth yn beth da pob tro. Dwi'n meddwl pan fydd pobl angen gwasanaethau cyfreithiol yn aml gall fod yn amser gofidus yn eu bywydau ac mae siarad gyda rhywun o gefndir tebyg yn gallu gwneud y broses yn haws a lleihau unrhyw rwystrau cyfathrebu posibl."

54. Tu hwnt i'r ystadegau, mae yna dystiolaeth bwerus o driniaeth wahaniaethol ar gyfer grwpiau penodol sy'n wynebu rhwystrau atodol i gychwyn ac yna mynd ar drywydd gyrfaoedd llwyddiannus fel cyfreithwyr. Mae digwyddiadau allanol, yn nodedig, ond o bell ffordd nid yn achos unigol, marwolaeth George Floyd yn yr Unol Daleithiau, wedi cynyddu'r ffocws ar faterion anghydraddoldeb hil a sut mae menywod yn cael eu trin yn y gweithlu cyfreithiol. Awgryma tystiolaeth o'r arolwg bod yna lefelau uwch o aflonyddu a bwlio o ran cyfreithwyr benywaidd a BAME. Mae ymchwil hefyd yn amlygu agweddau ac arferion gweithle sy'n effeithio ar gyfreithwyr anabl sy'n cyfyngu ar gyfleoedd ac yn arafu datblygiad gyrfa. Mae yna lefelau uchel o straen cysylltiedig i waith a salwch meddwl yn deillio o ddiwylliant o weithio oriau hir, obsesiwn gydag oriau i'w bilio a deli gyda phwysau a ddaw o reoli disgwyliadau cleientiaid.

³² Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd, Legally Disabled? The career experiences of disabled people working in the legal profession, Ionawr 2020.

³³ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Diversity of the judiciary: Legal professions, new appointments and current post-holders. Ystadegau 2020, Medi 2020.

55. Mae Covid-19 yn ei wneud yn fater mwy brys i hybu cynnydd pellach a chyflymach ar amrywiaeth. Un arwydd positif posibl yw newidiadau mewn arferion gwaith sy'n gwneud 'normal newydd' o weithio o bell yn bosibl, gan hwyluso patrymau gwaith hyblyg. Mae newidiadau rheoleiddiol diweddar, fel diwygiadau SRA sy'n galluogi cyfreithwyr i weithio ar sail lawrydd, yn cefnogi hyn. Fodd bynnag, ar y cyfan mae goblygiadau amrywiaeth y pandemig yn peri gofid:

- Gall ddod yn anoddach fyth i gychwyn gyrfa yn y gyfraith, er enghraifft, oherwydd bod llai o gontractau hyfforddi neu dymhorau prawf ar gael. Gallai Covid-19 waethygu anghydraddoldebau cyfredol, e.e. daw'r rhai sy'n wynebu'r heriau mwyaf i sicrhau graddau sydd angen ar gyfer mynediad i ysgolion y gyfraith o deuluoedd incwm is ble mae yna gyfran uwch o bobl BAME
- Gall fod yn anoddach symud ymlaen i rolau uwch os, er enghraifft, mae effeithiau economaidd Covid-19 yn creu llai o gyfleoedd ar gyfer cynnydd, neu os bydd pobl sy'n gweithio o bell oherwydd cyfrifoldebau gofal ddim yn cael eu dethol ar gyfer dyrchafiad
- Efallai mai'r gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu gorfodi allan o'r farchnad oherwydd Covid-19 fydd y grwpiau gyda'r gynrychiolaeth fwyaf amrywiol. Mae arolygon wedi awgrymu bod y risgiau mwyaf i ymarferwyr cymorth cyfreithiol, bargyfreithwyr iau, cwmnïau bach ac ymarferwyr unigol
- Mae materion iechyd meddwl yn cael eu hanwybyddu oherwydd gweithio o bell, ac mae tystiolaeth bod lles wedi gwaethygu, yn arbennig ymysg y rhai sy'n gwneud penderfyniadau

56. Mae angen delio â'r tri mater cysylltiedig o gyfansoddiad, ymddygiad a diwylliant. Mae safon y data'n gwella ond yn anghyson ar draws y sector, ac fe glywsom nad yw data'n cael ei ddefnyddio i ddysgu beth sy'n gweithio, hybu newid neu ddarparu atebolrwydd. Clywsom hefyd fod cwmnïau cyfreithiol Dinesig wedi sefydlu mentrau positif, ond bod ymroddiad yn amrywio ar dras y sector, ac nad yw'r rhain yn cyflawni canlyniadau gwell sylweddol eto. Awgrymodd rhanddeiliaid bod rheolyddion angen defnyddio ei lifrau i daclo ymddygiadau sydd angen eu dadwreiddio, tra'n meithrin diwylliant ble mae dioddefwyr yn teimlo ei bod yn ddiogel dod ymlaen ac adrodd am faterion gan wybod y byddant yn derbyn sylw priodol ac y dysgir gwersi o ganlyniad.

57. Mae angen i gyflymder cynnydd gyflymu'n fuan i sicrhau bod y proffesiwn cyfreithiol ar bob lefel yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau mae'n eu gwasanaethu. Er bod yna enghreifftiau o arweinyddiaeth ac arfer da, mae ein profiad yn cyfeirio at syrthni dwfn sy'n galw am ymateb rheoleiddiol mwy llym i orfodi'r cyflymder newid angenrheidiol ac i ddal pobl yn atebol ble nad oes cynnydd ystyrlon.

- **6%** o fargyfreithwyr a swyddogion gweithredol cyfreithiol yn adrodd bod ganddynt anabledd – dyma'r uchaf yn y sector ond mae'n bell islaw cyfartaledd o 15% ym mhoblogaeth y Deyrnas Unedig
- **9%** o CFau o gefndiroedd BAME o gymharu â 15% o'r holl fargyfreithwyr sy'n ymarfer
- **20%** o fwllch cyflog rhwng y rhywiau ar draws proffesiynau cyfreithiol
- **40%** o notariaid a 37% o fargyfreithwyr wedi mynychu ysgol gyda ffioedd

- **44%** o gyfreithwyr mewn cwmnïau cyfreithiol dinesig wedi dioddef o straen neu iselder
- **77%** o swyddogion gweithredol cyfreithiol yn fenywod, ond dim ond 27% o notariaid sydd

Gwella hyder

1 – Sicrhau gwasanaethau cyfreithiol o - ansawdd uchel a moeseg broffesiynol gryf

58. Mae'r gyfraith yn fwy na marchnad ac mae bod yn gyfreithiwr yn fwy na dim ond swydd. Mae cymdeithas yn gofyn i'r cyhoedd ymddiried mewn gweithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ddarparu cyngor a chefnogaeth arbenigol ar y materion mwyaf difrifol y gallai unrhyw un ohonom wynebu ac i wneud hynny gyda pharch ac empathi. Mae hyn yn cynnwys cefnogi pobl a allai fod yn fregus iawn. Daw bod yn weithiwr cyfreithiol â manteision penodol wedi cydbwysu gyda nifer o rwymedigaethau, sydd wedi eu hategu gan reoleiddio. Mae hefyd yn ennyn ystyr trwy gyfres o werthoedd a rennir, yn cynnwys cefnogaeth ddiysgog tuag at reolaeth cyfraith a chadw at egwyddorion proffesiynol. Mae'r agweddau hyn o ddiwylliant proffesiynol yn cael eu cyflwyno'n gyntaf trwy'r system addysg a hyfforddiant ond rhaid cynnal hyn trwy gydol gyrfa cyfreithwyr.
59. Yn gyffredinol, mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyfreithiol yn ymddiried mewn cyfreithwyr ac yn parchu eu harbenigedd. Mae boddhad gydag ansawdd cyngor a gwasanaeth cwsmeriaid wedi parhau i fod yn uchel dros y ddegawd, a hyd yn oed wedi gwella rhywfaint, er mae'n bwysig nodi bod rhai grwpiau demograffig yn llai bodlon. Er gwaethaf yr elfennau positif hyn, mae yna bryder ynghylch ansawdd technegol gwaith mewn rhai meysydd o'r gyfraith³⁴. Mae hyn yn cynnwys gwaith eirioli yn y llysoedd troseddol ac ieuencid, a gwaith mewnfudo a lloches, ble gall cyngor o safon isel gael goblygiadau difrifol. Hefyd, mae asiantaethau cyhoeddus yn adrodd bod cyfreithwyr yn gwneud gormod o gamgymeriadau y gellir eu hosgoi ar ffurflenni, gan achosi oedi a chost ddiangen i unioni pethau.
60. Dylai defnyddwyr allu ymddiried bod gan weithwyr proffesiynol y sgiliau a gwybodaeth angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol o ansawdd da a bod y rhain yn cael eu cadw'n gyfredol a pherthnasol dros gyfnod o amser. Fodd bynnag, mae'r cyhoedd yn gwneud tybiaethau anwir ynghylch y rhwystrau a gwrthbwysau sydd ar waith. Er enghraifft, roedd y Panel Cyhoeddus wedi synnu i ddysgu na chyflawnir gwiriadau allanol rheolaidd ar gymhwyster cyfreithwyr, fel y rhai a ddefnyddir mewn sectorau eraill fel gofal iechyd, hedfanaeth neu ddysgu. Mae'r LSB yn ystyried a yw'r drefn gyfredol o sicrhau cymhwyster parhaus trwy gydol gyrfa gweithiwr cyfreithiol yn ateb y gofyn.

Panel Cyhoeddus yr LSB

"Yn debyg i sut mae'n rhaid i beilotiaid ailsefyll profion a chwblhau gwiriadau diogelwch trwy gydol eu gyrfa, dwi'n teimlo bod bywydau pobl yn nwylo

³⁴ Gweler yr adran safon dechnegol yn y rhifyn tystiolaeth.

cyfreithwyr hefyd ac y dylai hyn fod yn ofynnol ar draws y diwydiant gwasanaethau cyfreithiol.”

61. Mae yna hefyd her i reolyddion ddelio gyda rhai ymddygiadau mewn gwasanaethau cyfreithiol nad ydynt yn rhai iach, gan awgrymu diwylliant sylfaenol nad yw'n gyson â disgwyladau cymdeithas o broffesiwn moesol. Mae hyn yn cynnwys materion yn ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant ble, fel y sefydlwyd yn y grŵp cyntaf o heriau, mae'r cyhoedd yn disgwyl gweld arweinyddiaeth wirioneddol. Mae materion diwylliannol hefyd yn ategu sut mae darparwyr yn gwasanaethu defnyddwyr ar sail dydd i ddydd. Enghraifft sy'n cyffwrdd y cyhoedd yn uniongyrchol yw diffyg cydymffuriad arwyddocaol gyda rheolau tryloywder a gynlluniwyd i helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau mwy gwybodus³⁵. Felly hefyd, mae darparwyr yn well o ran trin cwynion³⁶ ond mae nifer yn dal i arddangos agwedd amddiffynnol yn hytrach na diwylliant sy'n annog adborth a hwyluso cwynion yn rhagweithiol. Mae hyn yn bwysig oherwydd dengys ymchwil nad oes gan bobl hyder i gwyno³⁷ ac maent yn amheus y bydd cyfreithwyr yn delio â'u cwyn yn deg neu hyd yn oed yn talu sylw³⁸. Mewn gwirionedd, mae dros draean o ddefnyddwyr anfodlon yn gwneud dim ynghylch y materion maent yn eu profi.³⁹

62. Ar ben arall y sbectrwm, mae rôl cyfreithwyr ar faterion o ddiddordeb i'r cyhoedd wedi dod dan sylw cynyddol. Mae enghreifftiau o'r materion hyn yn cynnwys hwyluso cynlluniau osgoi trethi ymosodol, arferion gwael gan fanciau a hacio ffonau gan bapurau newydd. Yn fwy diweddar, canfu adroddiad gan Bwyllgor Cudd-wybodaeth a Diogelwch y Senedd⁴⁰ bod cyfreithwyr yn rhan o ddiwydiant twf i 'alluogwyr' yn helpu ymestyn dylanwad Rwsia yn fwiadol neu'n anfwriadol. Fel y nodwyd gan yr Athro Richard Moorhead a Dr Steven Vaughan⁴¹, mae cyfreithwyr mewnol ar flaen y gad o ran cwestiynau moesegol anodd, yn wynebu tensiwn rhwng rhwymedigaeth broffesiynol a phwysau masnachol. Fodd bynnag, os bydd lleiafrif bychan o gyfreithwyr yn croesi i'r ochr anghywir o'r terfynau moesol hyn, mae'n creu perygl o leihau'r ymddiriedaeth sydd gan y cyhoedd ym mhob cyfreithiwr.

- **36%** o gwsmeriaid anfodlon yn gwneud dim, ond i lawr o uchafbwynt o 49%
- **65%** o ddefnyddwyr diweddar gwasanaethau cyfreithiol a fyddai'n ymddiried mewn cyfreithwyr i ddweud y gwir
- **80%** o gwynion wedi eu datrys gan gwmnïau cyfreithiol mewnol, o gymharu â 72% yn 2012
- **84%** o foddhad gwasanaeth cyffredinol

³⁵ Yn seiliedig ar ymarferion a gyflawnwyd gan yr SRA a BSB. Gweler yr adran tryloywder yn y rhifyn tystiolaeth.

³⁶ SRA, First-tier complaints 2019-2020, 2020.

³⁷ Yn seiliedig ar Arolwg Orlhain LSCP – gweler adran Ceisio unioniad y gyfrol tystiolaeth.

³⁸ Economic Insight, Research into the experiences and effectiveness of solicitors' first-tier complaints handling processes. Comisiynwyd gan yr SRA ac Ombwdsmon y Gyfraith, Hydref 2017.

³⁹ Arolwg Tracio LSCP 2020.

⁴⁰ Pwyllgor Cudd-wybodaeth a Diogelwch y Senedd, Rwsia, Gorffennaf 2020.

⁴¹ Adroddiad LOD mewn Cydweithrediad gan Steven Vaughan a Richard Moorhead – Which way is the wind blowing? Understand the moral compass of in-house legal practice, Hydref 2019.

2 – Cau bylchau mewn diogelu'r cyhoedd

63. Yn ein hymchwil Panel Cyhoeddus, roedd pobl yn teimlo'n fregus pan oeddent angen defnyddio gwasanaethau cyfreithiol gan wybod y gallai cyfreithwyr gael effaith arwyddocaol ar eu bywydau. Teimlai'r rhan fwyaf o gyfranogwyr y dylid cael cryn dipyn o reoleiddio i ddiogelu pobl rhag eu camgymeriadau, yn hytrach na gadael i ddefnyddwyr reoli eu risgiau eu hunain. Yn y cyd-destun hwn, roedd yna syndod a gofid bod rhai gwasanaethau cyfreithiol heb eu rheoleiddio. Mae data arolwg hefyd yn dangos bod yna leiafrif arwyddocaol o ddefnyddwyr nad ydynt yn gwybod ac nad ydynt yn gwirio os yw eu darparwr wedi ei reoleiddio, yn bennaf oherwydd eu bod yn tybio ar gam fod hyn yn wir⁴².

Panel Cyhoeddus yr LSB

"Mae'n rhyfedd nad yw'r rhestr o wasanaethau a reoleiddir wedi ei hadolygu ers tipyn o amser. Gyda'r twf mewn gwasanaethau ar y rhyngwrwyd, mae perygl na fydd hyn yn cadw i fyny gyda'r byd go iawn a dulliau newydd o ddarparu cyngor y dylid eu rheoleiddio."

64. Mae'r LSB wedi amlygu bod y rhestr gyfredol o weithgareddau gwarchoddedig yn 'ddamwain hanesyddol' ac nad yw'n seiliedig ar resymeg diogelu defnyddwyr⁴³. Yn ogystal, ni adolygwyd y rhestr hon cyn y Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae'r farchnad wedi esblygu ers Deddf 2007 gyda thechnoleg yn newid sut y darperir gwasanaethau cyfreithiol, a gan bwy, ar fyrder. Yn amlwg, ni allai'r Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol ragweld rhai o'r newidiadau technolegol hyn, sy'n rhagori ar ffiniau rheoleiddiol. Cwestiwn i'w ddatrys gyda brys cynyddol yw os oes yna ddigon o hyblygrwydd o fewn y fframwaith cyfredol i gadw trywydd gyda'r datblygiadau hyn ac i ddarparu amddiffyniad digonol sy'n gallu mynnu hyder y cyhoedd.

65. Tra bod y farchnad heb ei rheoleiddio yn dal yn fychan, mae ysgrifennu ewyllysiau yn enghraifft o sut mae newydd-ddyfodiaid wedi llwyddo i ddefnyddio technegol i wasanaethu nifer fawr o ddefnyddwyr. Awgryma ymchwil yr LSB⁴⁴ bod darparwyr heb eu rheoleiddio yn dueddol o fod yn fwy arloesol a rhatach – mae'r rhain yn fanteision arwyddocaol o ystyried yr heriau ynghylch angen cyfreithiol heb ei fodloni. Yn erbyn hyn, dengys tystiolaeth yr arolwg bod defnyddwyr yn fwy anfodlon gyda'r gwasanaeth a dderbyniont gan ddarparwyr heb eu rheoleiddio. Ac eto mae'r fframwaith rheoleiddio yn golygu na allant gael mynediad at Ombwdsmon y Gyfraith i geisio unioniad. Mae Covid-19 yn debygol o gyflymu symudiad parhaol i ddarpariaeth fwy pell o wasanaethau cyfreithiol, a allai weld darparwyr heb eu rheoleiddio yn tyfu o ran dylanwad, ac felly'r bylchau mewn diogelu defnyddwyr yn ehangu.

66. Mae'r mater yn galw am gydbwyso tensiynau cystadleuol diogelu defnyddwyr, galluogi arloesi a chynyddu fforddiadwyedd gwasanaethau cyfreithiol. Efallai mai'r ateb yn y tymor byr yw i ehangu cwmpas rheoleiddio ond mewn modd cyffyrddiad cywir⁴⁵. Os oes

⁴² YouGov, Anghenion Cyfreithiol Unigolion yng Nghymru a Lloegr. Paratowyd ar gyfer yr LSB a Chymdeithas y Cyfreithwyr, Ionawr 2020.

⁴³ LSB, A vision for legislative reform of the regulatory framework for legal services in England and Wales, 2016.

⁴⁴ LSB, Technoleg ac Arloesi mewn Gwasanaethau Cyfreithiol – Prif Adroddiad, 2018.

⁴⁵ Fel yr awgrymwyd gan yr Athro Stephen Mayson, Reforming legal services: Regulation beyond the echo chambers. Adroddiad terfynol yr adolygiad annibynnol o reoleiddio gwasanaethau cyfreithiol, 2020.

yna fynediad cyffredinol i unioniad ar draws gwasanaethau cyfreithiol, gallai hyn gau bylchau mewn diogelu a rhoi hyder i fwy o ddefnyddwyr i ddefnyddio darparwyr heb eu rheoleiddio.

67. Yn fwy eang, ein barn ni yw bod y fframwaith deddfwriaethol wedi gwasanaethu'r sector yn dda ar y cychwyn, ond mae'n fwyfwy anghynnaladwy. Fel y sefydlom yn flaenorol, mae'r gwallau yn y fframwaith rheoleiddio cyfredol yn deillio o'i bensaernïaeth a'r diffyg hyblygrwydd eang a ddaw o'r strwythur hwn⁴⁶. Yn ogystal â gwneud cwrpas rheoleiddio yn fwy seiliedig ar risg, bydd diwygio deddfwriaethol yn angenrheidiol i ddelio'n llawn â materion yn ymwneud ag annibyniaeth rheoleiddio a'r tirlun sefydliadol. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o archwaeth sydd gan y llywodraeth ar gyfer diwygio'r Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol yn ei chyfanrwydd. Dylai hyn barhau i fod yn wir, yr her i'r sector fydd i wneud y gorau o'r potensial sy'n weddill yn y fframwaith cyfredol ynghyd ag unrhyw ddiwygiadau deddfwriaethol tymor byr ar raddfa lai.

- **20%** o ddefnyddwyr yn defnyddio darparwyr heb eu rheoleiddio a oedd yn anfodlon
- **34%** o wasanaethau cyfreithiol wedi eu darparu'n bennaf drwy e-bost/rhyngrwyd/ar-lein
- **35%** o ddefnyddwyr ddim yn gwybod neu ddim yn gwirio os yw eu cyfreithiwr wedi ei reoleiddio
- **49%** o'r cyhoedd sy'n teimlo y byddai eu hawliau defnyddwyr wedi eu diogelu wrth ddefnyddio cyfreithwyr
- **130,000** yw isafswm yr amcangyfrif o ewyllysiau y mae darparwyr heb eu rheoleiddio yn ysgrifennu pob blwyddyn

3 – Diwygio'r system cyfiawnder ac ail-lunio'r tirlun rheoleiddio

68. Mae'r crynodeb tystiolaeth yn ffocysu'n bennaf ar y farchnad ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol, ond ni fyddai dadansoddiad o gyflwr hyder y cyhoedd yn y sector yn gyflawn heb rywfaent o sylwebaeth ar y system cyfiawnder ehangach⁴⁷ a pherfformiad y sefydliadau rheoleiddio a delio â chwynion sy'n bodoli i ddiogelu defnyddwyr.

69. Yn gyntaf, mae cyfreithwyr yn gweithredu mewn systemau cyfiawnder mae nifer yn dehongli i fod mewn "cyflwr o argyfwng". O fewn cyfiawnder troseddol, mae'r pryderon yn cynnwys aneffeithlonrwydd a pherfformiad diffygiol yn y llysoedd yn erbyn cefndir o bwysau ariannol, cau'r llysoedd, pryderon ynghylch ansawdd eiriolaeth, methiannau o ran datgelu tystiolaeth a chwymp mewn erlyniadau ar gyfer trais. Mae'r system cyfiawnder sifil hefyd yn wynebu ôl-groniadau cynyddol o achosion gydag oedi cysylltiedig ac mae pryderon ynghylch sicrhau cydraddoldeb arfau ar gyfer ymgyfreithwyr personol, yn arbennig ar gyfer pobl mewn sefyllfaoedd bregus fel rhai gyda phroblemau iechyd meddwl neu lythrennedd isel. Cododd adolygiad⁴⁸ i sut mae'r

⁴⁶ Y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol, A vision for legislative reform of the regulatory framework for legal services in England and Wales, Mehefin 2016.

⁴⁷ Am ragor o fanylion gweler yr adran ar Hyder yn y system gyfreithiol yn y rhifyn tystiolaeth.

⁴⁸ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Assessing Risk of Harm to Children and Parents in Private Law Children Cases. Adroddiad Terfynol, Mehefin 2020.

llysoedd teulu yn delio â cham-drin domestig a throseddau difrifol eraill bryderon bod dioddefwyr a phlant yn wynebu risgiau diangen. Mewn cyfiawnder gweinyddol, mae defnyddwyr amrywiol dribiwnlysoedd a chynlluniau ombwdsmon hefyd yn wynebu oedi arwyddocaol. Yn ychwanegol at hyn, fel y trafodwyd yn flaenorol, yw'r 'bwlich cyfiawnder' mawr sy'n eithrio pobl a busnesau bach rhag cael mynediad at y system cyfiawnder o gwbl.

70. Gan droi at reoleiddio, mae'r system trin cwynion yn cyffwrdd y cyhoedd yn fwyaf uniongyrchol. Os bydd hyn yn methu, mae'n tansellio hyder y cyhoedd a phroffesiynol yn y system reoleiddio gyfan. Cyn y Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol, nid oedd gan bobl hyder mewn system ble roedd cyrff proffesiynol yn delio â chwynion gwasanaeth ynghylch eu haelodau. Mae wedi bod yn fanteisiol iawn i ddefnyddwyr allu cwyno i un cynllun ombwdsmon unigol, hollol annibynnol, sydd wedi ymchwilio i tua 70,000 o gwynion yn ystod y ddegawd. Fodd bynnag, mae Ombwdsmon y Gyfraith wedi wynebu ôl-groniad arwyddocaol o achosion ers nifer o flynyddoedd, sefyllfa sydd wedi gwaethygu oherwydd Covid-19. Dan arweinyddiaeth newydd yn 2020, mae'r sefydliad hefyd angen cryfhau ei ddiwylliant arweinyddiaeth, rheoli newid, systemau a llywodraethu. Mae yna angen ar gyfer modelau datrys anghydfodau all ddarparu unioniad amserol ac effeithiol i ddefnyddwyr. Yn y pen draw, a dim ond os metho popeth arall ddylid defnyddio hyn, os daw'n amlwg na all Ombwdsmon y Gyfraith wella, mae hyn yn cynnwys ystyried dewisiadau amgen i'r trefniadau cyfredol.
71. Cynlluniwyd y Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol i wella hyder y cyhoedd trwy roi terfyn ar system o reoleiddio cyfreithwyr gan gyfreithwyr. Yn dilyn cyflwyno Rheolau Llywodraethu Mewnol diwygiedig gan yr LSB yn 2020, gall y cyhoedd fod yn hyderus fod y cyrff rheoleiddio yn gweithredu'n fwy annibynnol o'r rheolyddion cymeradwy. Rhaid croesawu'r ffaith bod bron i bob rhan o'r sector wedi mynd tu hwnt i'r isafswm gofynion hyn i sefydlu mwy o wahaniad sefydliadol rhwng y cyrff rheoleiddio a'r rheolyddion cymeradwy. Fodd bynnag, heb ddeddfwriaeth sylfaenol, ni ellir cyflawni'r annibyniaeth lwyr a fyddai'n ddarparu hyder llawn y cyhoedd yn annibyniaeth rheoleiddio. Yn ogystal, er bod yna fwy o annibyniaeth strwythurol bellach, amser a ddengys os bydd annibyniaeth strwythurol yn trosi i awtonomiaeth fwy diwylliannol a mwy o ffocws i ddefnyddwyr.
72. Mae'r cyrff yn edrych yn wahanol iawn i ddeng mlynedd yn ôl o ran trosi o gyrrff aelodaeth hunanreoleiddiol tuag at fod yn rheolyddion proffesiynol modern. Rhaid i reolyddion heddiw ymrafael â risgiau a materion mwy cymhleth nag o'r blaen, fel atal gwyngalchu arian, dylunio gwelliannau tryloywder prisiau ac asesu goblygiadau deallusrwydd artifisial. Disgwylir i reolyddion gwasanaethau proffesiynol modern ddatblygu dealltwriaeth fwy soffistigedig o anghenion defnyddwyr ac amrywiaeth y cymunedau maent yn eu rheoleiddio. Mae'r pethau hyn i gyd yn galw am adnoddau digonol i ddarparu rheoleiddio o ansawdd da sy'n mynnu hyder y cyhoedd. Mae hyn yn creu heriau ar gyfer rheolyddion llai yn benodol.
73. Nid yw safbwynt yr LSB wedi newid o'r farn y byddai symud tuag at reolydd unigol ar gyfer yr holl wasanaethau cyfreithiol yn ddarparu buddion sylweddol i'r cyhoedd. Fodd bynnag, nes y gall deddfwriaeth sylfaenol sefydlu hyn, mae angen gwella cydweithredu ar draws y sector i ddarparu rheoleiddio effeithiol er lles y cyhoedd. Gallai gwella cydlynu a chydweithredu rhwng rheolyddion helpu trechu rhwystrau yn gysylltiedig i raddfa. Mae hyn hefyd yn bwysig oherwydd nad yw'r system gyfredol o sefydliadau

lluosog yn rheoleiddio'r un gweithgareddau yn darparu eglurder a symlrwydd ar gyfer defnyddwyr, mae'n creu perygl o anghysondeb gyda safonau a dull, ac yn dyblygu costau. Fodd bynnag, mae profiad diweddar o gydweithredu yn amrywiol. Mae'r wefan Legal Choices yn enghraifft ble cydweithredodd y rheolyddion yn llwyddiannus yn gychwynnol. Ond, yn anffodus, mae un rheolydd wedi tynnu allan o'r cynllun hwn. Yna, wrth geisio cytuno ar raglen a chyllid ar gyfer y dyfodol, roedd y cyrff rheoleiddio oedd yn weddill yn ei chael yn anodd datrys safbwyntiau cystadleuol neu ymroi i gynllun tymor hir.

74. Yn y pen draw, yn gysylltiedig i'r cwestiwn o strwythurau rheoleiddio, mae'r cwestiynau ynghylch sut ac i bwy ddylid gweithredu rheoleiddio. Mae'r sector gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr wedi datblygu dros gyfnod hir o amser, gyda rhannau â'i wreiddiau gweladwy yn ymestyn yn ôl ar hyd canrifoedd, a'r rhan fwyaf o leiaf yn rhagflaenu symudiadau a welwyd mewn sectorau eraill i adeiladu gwasanaethau yn fwy clir o amgylch defnyddwyr. Nid yw dealltwriaeth y cyhoedd o strwythur y sector, gyda'i nifer o adrannau ac is-adrannau o broffesiynau, yn gyflawn iawn, nac ychwaith gysyniadau cysylltiedig fel gweithgareddau cyfreithiol a gedwir yn ôl. Beth sy'n debygol o fod bwysicaf o ran mynediad, hyder y cyhoedd ac ansawdd y gwasanaeth, yw i gychwyn o anghenion defnyddwyr. Mae hyn yn awgrymu gosod llai o ffocws ar y categori o gyfreithiwr sy'n darparu gwasanaeth, a mwy ar y gweithgareddau a modelau cyflawni cyfreithiol fydd yn bodloni'r anghenion hyn fwyaf, a'r hyfforddiant, cymhwyster ac indemniad cysylltiedig fydd yn angenrheidiol i gynnal hyder y cyhoedd.

- **32%** o ymgeiswyr trais domestig heb gynrychiolaeth
- **50%** o farnwyr mewn arolwg yn amlygu colli annibyniaeth farnwrol
- **70,000** o gwynion wedi eu hymchwilio gan Ombwdsmon y Gyfraith ers agor
- **437,000** o achosion yn aros yn y Llysoedd Ynadon ers Mehefin 2020
- **£124.7m** mewn ffioedd tystysgrif ymarfer wedi eu casglu ar draws rheolyddion yn 2020-21

Gwell gwasanaethau

1 – Grymuso defnyddwyr i gaffael gwasanaethau o ansawdd uchel a fforddiadwy

75. Yn 2016, casglodd y CMA nad oedd cystadlu yn gweithio'n dda ar gyfer defnyddwyr oherwydd diffyg gwybodaeth am brisiau, gwasanaeth, rheoleiddio ac unioniad⁴⁹. Ers hynny, mae ymgais gydunol wedi ceisio sicrhau cefnogaeth defnyddwyr i hybu mwy o gystadlu trwy wella tryloywder gan ddarparwyr gwasanaeth. Pedair blynedd ers ei astudiaeth marchnad, yn fuan iawn bydd y CMA yn adrodd ar gynnydd y sector.
76. Mae yna arwyddion positif. Mae rheolau newydd wedi darparu tryloywder ar brisiau ar draws rhannau mawr o'r farchnad. Mae tryloywder wedi gwella mewn meysydd o'r gyfraith, fel ysgariad, nad oedd wedi eu cynnwys dan y rheolau newydd⁵⁰. Dengys tystiolaeth o'r arolwg bod siopa am wasanaeth yn cynyddu, a bod defnyddwyr yn ei chael ychydig yn haws i gymharu darparwyr o ran pris ac ansawdd⁵¹. Mae'r wefan Legal Choices wedi ei hailwampio ac yn cyrraedd cynulleidfa llawer ehangach. Mae'n haws i ddefnyddwyr ddilysu os yw cwmni cyfreithiol wedi ei reoleiddio trwy ddefnyddio offer digidol a ddarparwyd gan rai o'r cyrff rheoleiddio.
77. Ar hyn o bryd mae rheolyddion yn gwerthuso effaith y newidiadau a gyflwynwyd, ac efallai y bydd rhai o'r ymyraethau hyn angen rhagor o amser cyn cael effaith lawn yn y farchnad. Ond ar y cyfan, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael hyd yma, mae'n ymddangos mai cyfyngedig yw'r effaith ar ganlyniadau defnyddwyr. Mae siopa am wasanaethau wedi codi'n raddol ar yr un llwybr ag yr oedd cyn i'r rheolau newydd ddod i rym⁵². Mae lleiafrif arwyddocaol o ddefnyddwyr yn adrodd ei bod yn anodd dod o hyd i wybodaeth am brisiau ac ansawdd, tra bod y rhan fwyaf yn dal i ddarganfod y pris trwy gael trafodaeth gyda darparwr yn hytrach na dod o hyd iddo ar wefan⁵³. Does yna ddim patrwm amlwg o ledaeniad prisiau ar gyfer gwasanaethau tebyg yn culhau, tra bod y rhan fwyaf o brisiau yn cynyddu ac mae tystiolaeth bod cwmnïau'n codi prisiau oherwydd bod y gystadleuaeth yn gwneud hynny⁵⁴. Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, mae yna bocedi arwyddocaol o ddiffyg cydymffuriad gydag elfennau o reolau tryloywder cyrff rheoleiddio ymysg cyfreithwyr a bargyfreithwyr.
78. Er gwaethaf cam tuag at wella tryloywder, ac er bod tystiolaeth bod nifer o ddefnyddwyr yn chwilio ar-lein am adolygiadau o ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol, prin iawn yw gwefannau cymharu a safleoedd adolygiadau cwsmeriaid sefydledig. Canfu arolwg olrhain blynyddol yr LSCP mai dim ond 2% o ddefnyddwyr oedd yn defnyddio un i ddewis eu darparwr⁵⁵. Cafwyd buddsoddiad arwyddocaol gan fuddsoddwyr i gefnogi gwefannau cymharu newydd, ond nid oes digon o gwmnïau cyfreithiol wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaethau hyn i'w gwneud yn ddichonol yn fasnachol. Ar yr ochr gyflenwi, mae graddfa gymharol fechan y sector, ei sylfaen cyflenwyr rhanedig iawn a

⁴⁹ CMA, Astudiaeth o'r Farchnad Gwasanaethau Cyfreithiol: Adroddiad Terfynol, Rhagfyr 2016.

⁵⁰ LSB a CMA, Prices of Individual Consumer Legal Services in England and Wales 2020, Medi 2020.

⁵¹ Yn seiliedig ar Arolwg Tracio LSCP 2020.

⁵² Yn seiliedig ar Arolygon Tracio LSCP

⁵³ Yn seiliedig ar Arolygon Tracio LSCP

⁵⁴ LSB a CMA, Prices of Individual Consumer Legal Services in England and Wales 2020, Medi 2020.

⁵⁵ Yn seiliedig ar Arolwg Tracio LSCP 2020.

phroblemau gan nad yw'r gymhariaeth yn un tebyg at ei debyg ymysg y ffactorau sy'n llesteirio gwasanaethau cymharu.

Panel Cyhoeddus yr LSB

"Pe byddai gan ddefnyddwyr well syniad o beth fyddai gwasanaethau cyfreithiol yn costio a safon y cwmni dan sylw, byddent yn llawer mwy parod i o leiaf edrych ar wasanaethau cyfreithiol yn hytrach na diystyru gwasanaethau cyfreithiol fel rhywbeth na allant ei fforddio."

"Oni bai bod pobl yn deall beth mae cyfreithwyr yn gallu ei wneud neu beidio, does dim modd cael y gorau o'r gwasanaeth maent yn ei ddarparu."

79. Byddai gwella arwyddion ynghylch ansawdd darparwyr yn helpu defnyddwyr i hybu'r gystadleuaeth. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd gan yr LSCP⁵⁶, nid oes gan ddefnyddwyr fynediad at wybodaeth i'w helpu i gymharu a gwneud dewisiadau hyderus, p'un a yw hynny'n ddata gwrthrychol neu adborth gan gwsmeriaid. Yn hytrach, rhaid dibynnu ar 'reddf', neu argymhelliad neu brofiad personol. Mae nifer o asiantaethau cyhoeddus yn casglu data ar wallau gan gyfreithwyr allai fod yn ddefnyddiol i ddefnyddwyr, ond nid ydynt yn ei gyhoeddi. Nid yw'r atebion yn y maes hwn yn amlwg, ond bu'r cyrff rheoleiddio yn peidio talu digon o sylw i'r mater ers amser maith. Mae'r LSB yn datblygu cynigion ar gyfer datrysiadau ymarferol ar hyn o bryd.

- **2%** o ddefnyddwyr yn defnyddio gwasanaeth cymharu i ddod o hyd i gwmni cyfreithiol
- **25%** o gwmnïau cyfreithiol yn cydymffurfio'n llawn gyda rheolau tryloywder SRA
- **30%** o ddefnyddwyr yn siopa am wasanaeth cyn dewis cwmni cyfreithiol
- **54%** o ddefnyddwyr yn ei chael yn hawdd cymharu safon cwmnïau

2 – Meithrin arloesi sy'n dylunio gwasanaethau o amgylch anghenion defnyddwyr

80. Po leiaf effeithiol fydd defnyddwyr yn ymgysylltu â marchnadoedd, y gwanaf yw'r ysgogiad i ddarparwyr arloesi a chynllunio gwasanaethau sy'n fwy ymatebol i'w hanghenion.

81. Ceir straeon wythnosol yn y wasg fasnachol ynghylch darpariaeth cyfalaf newydd, arloesi o ran cyflenwi gwasanaethau a newydd-ddyfodiaid yn addo newid y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n llawer anoddach nodi enghreifftiau o newid yn ystod y deng mlynedd diwethaf sydd wedi bod yn hollol drawsnewidiol. Does dim sy'n cymharu i effaith banciau heriol o ran amharu ar wasanaethau ariannol, er enghraifft.

⁵⁶ LSCP, Consumers feedback on quality indicators in legal services, Gorffennaf 2020.

82. Mae data arolwg i gefnogi hyn, yn dangos bod lefelau cyffredinol o arloesi yn y farchnad heb newid dros amser⁵⁷. Nid yw gwasanaethau cyfreithiol wedi perfformio'n ddim gwaeth na'r economi gyfan ar y mesur hwn. Fodd bynnag, mae'r ystadegau'n siomedig o ystyried bod y diwygiadau i ryddfrydoli'r farchnad yn rhan ganolog o'r Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol a diddymu cyfyngiadau rheoleiddio diangen ers hynny.

Panel Cyhoeddus yr LSB

"...mae cystadlu yn hybu arloesi a byddai hyn yn helpu defnyddwyr yn enfawr, fel y mae wedi yn bron i bob diwydiant arall, gan wthio costau i lawr a gwthio ansawdd i fyny. Byddai costau is yn golygu mwy o ddefnyddwyr/gwell referniw i gwmnïau, mwy o gyfiawnder yn cael ei wasanaethu a mwy o hyder yn y gyfraith a'r system cyfreithiol".

83. Mai rhai arwyddion positif ar gyfer y dyfodol. Dengys tystiolaeth o arolygon⁵⁸ bod darparwyr yn adrodd yn gynyddol am farchnad gystadleuol fel ffactor sy'n ysgogi arloesi. Mae dehongliadau bod rheoleiddio gwasanaethau cyfreithiol yn rhwystr i arloesi wedi lleihau'n sylweddol dros gyfnod o amser⁵⁹. Yn eu hadroddiad⁶⁰ ar yr Her Mynediad Cyfreithiol, canfu'r SRA a Nesta bod rhwystrau i arloesi o reoleiddio yn 'feddal' yn hytrach na 'chaled'. Roedd y rhain yn cynnwys heriau y mae newydd-ddyfodiaid yn wynebu wrth lywio eu ffordd trwy gyfundrefnau rheoleiddio sectoraidd sy'n gorgyffwrdd a therfynau rheoledig cyngor cyfreithiol. Gellid trechu rhai i'r anawsterau hyn gyda gwybodaeth fwy clir a chydlynol.

84. Roedd yr Her Mynediad Cyfreithiol hefyd yn dangos bod arloesi mewn technegol sy'n wynebu'r cyhoedd yn dod yn bennaf o sefydliadau heb ei rheoleiddio, ond bod rhai defnyddwyr yn gyndyn i'w defnyddio. Atseiniwyd y teimlad hwn gan Banel Cyhoeddus yr LSB, oedd yn gwerthfawrogi'r amddiffyniadau mae'r rheoleiddiad yn ei ddarparu. Cynhaliodd y Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol gyfundrefn oddefol ble mae dim ond nifer fechan o weithgareddau cyfreithiol wedi eu cadw ar gyfer unigolion a busnesau sydd wedi eu hawdurdodi gan un o'r cyrff rheoleiddio. Mae yna dystiolaeth gymysg o ran i ba raddau mae darparwyr heb eu rheoleiddio wedi treiddio i'r farchnad, gydag arwyddion o lwyddiant mewn meysydd fel ysgrifennu ewyllysiau, cyflogaeth ac ysgariad. Mae'r marchnadoedd hyn yn feysydd niferoedd uchel, gwerth isel fel arfer, ac felly'n llawer haws i amharu arnynt. Fodd bynnag, mae dylanwad mawr y cyfreithiwr a 'brandiau' bargyfreithwyr ar ddewis i ddefnyddwyr yn ei gwneud yn anodd i bob math o ddarparwyr amgen dreiddio'n ddwfn. Fel y trafodwyd uchod, gallai dod â darparwyr sydd heb eu rheoleiddio dan fantell rheoleiddiad – hyd yn oed os mai dim ond ar gyfer darparu unioniad fydd hyn – roi hyder i ddefnyddwyr eu defnyddio.

85. Thema gyson o'n gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yw bod y diwylliant cyffredinol yn y proffesiwn cyfreithiol yn rhwystr i arloesi. Nid yw'r ffaith bod cyfreithwyr fel arfer yn llenwi rolau sy'n galw am liniaru risgiau ar gyfer eu cwsmeriaid yn meithrin meddylfryd o

⁵⁷ LSB, Technoleg ac Arloesi mewn Gwasanaethau Cyfreithiol – Prif Adroddiad, Tachwedd 2018.

⁵⁸ LSB, Technoleg ac Arloesi mewn Gwasanaethau Cyfreithiol – Prif Adroddiad, 2018.

⁵⁹ LSB, Technoleg ac Arloesi mewn Gwasanaethau Cyfreithiol – Prif Adroddiad, 2018.

⁶⁰ Nesta Challenges, The Legal Access Challenge: Closing the legal gap through technology innovation, Mehefin 2020.

arloesi naturiol sy'n eu hannog i geisio darparu gwasanaethau cyfreithiol mewn ffyrdd newydd. Awgryma arbenigwyr bod y model partneriaeth traddodiadol yn cyfrannu tuag at osgoi risgiau ac arafwch wrth wneud penderfyniadau. Dylai cyfundrefn drwyddedu'r ABS herio hyn gan ei fod yn cyflwyno syniadau allanol i gwmnïau cyfreithiol gan berchnogion a buddsoddwyr nad ydynt yn gyfreithwyr. Fodd bynnag, er bod tystiolaeth fod ABS yn fwy arloesol na chwmmnïau traddodiadol, dehongliad buddsoddwyr o wasanaethau cyfreithiol yw ei bod yn farchnad 'gysglyd'⁶¹ ac nid yw'r mathau o arferion amlddisgyblaethol a ragwelwyd gan lunwyr y Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol wedi digwydd cymaint ag y disgwyliwyd.

- **26%** o ddarparwyr yn cofnodi arloesi o ran gwasanaeth dros gyfnod o dair blynedd
- **40%** o ddarparwyr yn cofnodi rheoliadau gwasanaethau cyfreithiol fel cyfyngiad ar arloesi
- **48%** o gwmnïau wedi eu rheoleiddio gan SRA yn gorfforedig, i fyny o 19% yn 2010/11
- **1,413** ABS: data yn awgrymu bod y rhain yn fwy arloesol na chwmmnïau traddodiadol
- **176,650** o unigolion awdurdodedig, i fyny 24% ers 2010/11

3 – Cefnogi defnydd cyfrifol o dechnoleg sy'n sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd

86. Yn 2018, canfu ymchwil LSB bod mabwysiadu technoleg gan y mwyafrif o gwmnïau cyfreithiol yn gymharol fach⁶². Tra bod y Cwmwl ac offer gwirio hunaniaeth yn gyffredin, ychydig iawn o ddefnydd a wnaed o offer fel Blockchain a deallusrwydd artiffisial, ac nid oedd cwmnïau yn bwriadu defnyddio'r rhain yn ystod y tair blynedd nesaf ychwaith. Dehongliad cyffredin yw bod technoleg yn bennaf wedi cynnig manteision i gleientiaid corfforaethol wrth i gwmnïau'r ddinas fuddsoddi'n drwm mewn deorfeydd a gwasanaethau newydd i wasanaethu eu cleientiaid, ond roedd y cyhoedd yn elwa llawer llai.
87. Fodd bynnag, ym myd technoleg, gall pethau ddigwydd yn gyflym iawn. Datganodd adroddiad yn 2019 bod y crynodiad uchaf o gwmnïau technegol cyfreithiol newydd ar gyfer 'gwasanaethau defnyddwyr' fyddai'n fuddiol i unigolion a busnesau bach⁶³. Mae'r llywodraeth wedi buddsoddi £2filiwn i gefnogi 'trawsnewidiad digidol' y sector cyfreithiol ac wedi penodi Tech Nation i weithio gyda'r Panel Cyflawni Lawtech. Mae wedi rhoi technoleg yn ganolog i ddiwygiadau moderneiddio'r llysoedd ac mae darpariaeth ar-lein yn ei gwneud yn haws ac yn rhatach i ddefnyddwyr hunan-wasanaethu mewn meysydd yn cynnwys atwrneiaeth, profiant ac ysgariad.
88. Mae Covid-19 wedi gorfodi cwmnïau cyfreithiol i drosi i ddarpariaeth bell ar gyfer nifer o wasanaethau cyfreithiol ar fyrder. Mae asiantaethau cyhoeddus wedi ymateb i'r

⁶¹ LSB, Evaluation: ABS and investment in legal services 2011/12-2016/17 – Main report, Mehefin 2017.

⁶² LSB, Technoleg ac Arloesi mewn Gwasanaethau Cyfreithiol – Prif Adroddiad, Tachwedd 2018.

⁶³ LegalGeek, Adroddiad Legaltech Startup 2019.

pandemig trwy gyflymu rhaglenni trawsnewidiad digidol. Fel y nodwyd, “bydd nifer o’r technolegau a thechnegau sydd wedi eu llunio yn y broses o symud ac yn y cyfyngiadau symud yn cael eu hystyried i fod yn fwy ffafriol i’r dulliau traddodiadol”⁶⁴.

89. Mae gan dechnoleg botensial enfawr i ddatgloi mynediad at gyfiawnder gan y gall ddileu cost o ddarpariaeth gwasanaethau cyfreithiol mewn ffyrdd nad yw'n bosibl i nifer o ymyraethau eraill. Fodd bynnag, er mwyn adeiladu'n llwyddiannus ar y momentwm mae Covid-19 wedi ei greu, mae yna gyfres o heriau i'w bodloni'n llwyddiannus.
90. Un yw sicrhau nad yw technoleg yn eithrio rhai grwpiau, a allai fod yn rhai bregus, mewn cymdeithas. Er bod y nifer o bobl heb fynediad at offer digidol yn lleihau, mae lleiafrif arwyddocaol yn dal yn y sefyllfa hon. Mae llawer mwy yn ofidus am ddefnyddio gwasanaethau ar-lein neu'n ei chael yn anodd. Ni ddylai hyn atal y dechnoleg rhag cael ei defnyddio'n fwy helaeth, ond dylid cadw dewisiadau amgen ar gyfer gwasanaethau allweddol.
91. Mae creu deallusrwydd artifisial a rhaglenni technolegol wedi ei lesteirio gan yr anawsterau mae datblygwyr yn wynebu wrth gael mynediad at y niferoedd ac ansawdd y data, fel dyfarniadau llysoedd, contractau a dogfennau cyfreithiol eraill, y mae'r offer hyn yn seiliedig arnynt. Efallai y byddai'r wybodaeth yn cael ei hystyried i fod yn gyfrinachol yn fasnachol neu'n bersonol, neu efallai nad yw ar y fformat cywir. Hyd yma, mae technolegau dadansoddeg rhagfynegol wedi eu defnyddio mewn meysydd fel ymglyfreitha masnachol, ble mae data crai yn haws i'w gael. Fodd bynnag, gallai'r mathau yma o offer hefyd wella mynediad at gyfiawnder. Gall ymddiriedolaethau data a sefydliadau data i lywio a llywodraethu rhannu data gynyddu mynediad at ddata i uchafu ei werth cymdeithasol ac economaidd, tra'n cyfyngu a lliniaru niwed posibl.⁶⁵
92. Her arall yw na fydd defnyddwyr a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol yn defnyddio technolegau os ydynt yn ymddiried ynddynt. Mae yna drafodaeth gyhoeddus o ran pryd mae'n briodol i ddefnyddio technoleg, er enghraifft defnyddio gwrandawiaadau fideo ar gyfer treialon troseddol ac adnabod wynebau wrth blismona. Os bydd deallusrwydd artifisial (AI) chwarae mwy o ran o ran darparu gwasanaethau cyfreithiol, yn arbennig ble mae hyn yn disodli ymwneud dynol, mae angen symud ymlaen â hyn mewn ffyrdd sy'n 'gymdeithasol dderbyniol'. Mae'r Ganolfan ar gyfer Moeseg Data ac Arloesi wedi amlygu bod diffyg ymddiriedaeth y cyhoedd yn “ataliad sylfaenol ar arloesi... Yn absenoldeb ymddiriedaeth, mae defnyddwyr yn annhebygol o ddefnyddio technolegau newydd neu rannu'r data sydd angen i'w hadeiladu, tra bydd y diwydiant yn amharod i ymgysylltu mewn rhaglenni arloesol oherwydd ofn gwrthwynebiad a difrod i enw da”⁶⁶.
93. Mae hyn yn arwain at grŵp o heriau yn ymwneud â'r amgylchedd rheoleiddiol. Fel y nodwyd uchod, mae datblygwyr technoleg, darparwyr gwasanaethau cyfreithiol a buddsoddwyr angen help i ddeall y gofynion rheoleiddiol. Mae hyn wedi'i gymhlethu gan nifer o reolyddion gwasanaethau cyfreithiol a allai fod â rheolau gwahanol, yn ogystal â gorgyffwrdd rhwng gwasanaethau cyfreithiol a chyfundrefnau rheoleiddio eraill. Yn

⁶⁴ Yr Athro Richard Susskind a Dr Daniel Susskind wedi eu dyfynnu yn <https://www.legalfutures.co.uk/latest-news/susskind-no-return-to-old-ways-after-covid-19-crisis>

⁶⁵ <https://theodi.org/article/what-is-a-data-trust/>

⁶⁶

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/894170/CDEI_AI_Barometer.pdf

ogystal, efallai na fydd gan rai rheolyddion ddealltwriaeth o dechnoleg, a allai naill ai arwain at ymatebion gormodol sy'n llesteirio arloesi neu fethiant i ragweld neu ymateb i risgiau sy'n niweidio defnyddwyr. Maent angen sicrhau cydbwysedd sy'n derbyn y risg ei bod yn bosibl na fydd arloeso technegol yn gweithio, tra'n diogelu defnyddwyr a'r system gyfreithiol gyffredinol rhag niwed. Gall camau ymarferol, fel strategaethau technoleg, paneli cynghori a blychau tywod helpu rheolyddion i ddatblygu eu dull. Er bod technolegau uwch fel AI yn dal i fod yn weddol ifanc, mae angen ystyried goblygiadau'r technolegau hyn nawr, yn cynnwys y sgiliau mae gweithwyr proffesiynol eu hangen, a pha reoliadau penodol i'r sector sydd angen, os o gwbl.

94. Mae'r farchnad yn datblygu mewn modd sy'n golygu bod faint o weithgaredd cyfreithiol sy'n digwydd o fewn cwrpas rheoleiddio yn lleihau. Yn rhannol, mae hyn oherwydd ei bod system sy'n seiliedig ar deitlau. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae busnesau nad ydynt wedi eu rheoleiddio yn wynebu bwlch hygredded a allai amharu ar eu twf. Mae'r rhai tu allan i'r fframwaith yn cynnwys datblygwyr technoleg a chyflenwyr wedi eu lleoli tu allan i Gymru a Lloegr yn ogystal â busnesau nad ydynt wedi eu rheoleiddio yn yr awdurdodaeth hon. Gallai ymagwedd seiliedig ar risg ddarparu agor mynediad i ddarparwyr gwasanaeth a galluogi darparwyr i gynllunio gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr yn hytrach na therfynau rheoleiddio. Bydd technoleg yn dal i symud yn gynt na rheoleiddio, ond efallai y bydd fframwaith deddfwriaethol a luniwyd ar gyfer oes analog yn wynebu trafferth gynyddol wrth ddelio â'r farchnad newidiol.

Panel Cyhoeddus yr LSB

"Mae angen dehongli a phrofi AI yn y maes hwn yn ofalus i sicrhau bod ansawdd wedi ei gynnal."

"Mae'r dyfodol yn dir peryglus yn llawn manau gwan a phroblemau sydd angen eu datrys cyn y gellir mabwysiadu AI yn gyffredinol."

95. Yn gryno, yr her i reolyddion gwasanaethau cyfreithiol fydd i greu amgylchedd sy'n meithrin ffyniant arloesi cyfrifol ar yr un pryd â sicrhau y rhoddir technolegau ar waith mewn ffyrdd sy'n dderbyniol mewn cymdeithas, fel nad yw eu defnydd yn lleihau hawliau sylfaenol nac amddiffyniadau cyfreithiol, a bod eu manteision yn drech na'r risgiau.

- **2%** o gwmnïau cyfreithiol yn 2018 yn defnyddio blockchain
- **20%** o gwmnïau cyfreithiol yn 2018 yn defnyddio adeiladu dogfennau awtomataidd
- **34%** o gwmnïau cyfreithiol yn nodi rheoleiddio gwasanaethau cyfreithiol fel rhwystr i ddatblygu technoleg
- **48%** o gwmnïau cyfreithiol yn dweud bod technoleg wedi eu gwneud yn fwy ymatebol i anghenion cwsmeriaid
- **£290miliwn** wedi ei fuddsoddi mewn cwmnïau technoleg y gyfraith newydd ac sy'n tyfu yn 2019

Casgliad

96. Er llwyddiannau gwirioneddol y ddegawd ddiwethaf, roedd nifer o'r heriau critigol wynebir gan y sector heddiw yn bodoli pan ddaeth y Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol i rym. Mae'r sector cyfreithiol fel petai 'yn canu tŷn gron'. P'un a yw'n ymwneud â materion o ran tegwch, hyder neu ddarparu gwasanaethau, ble gwelir cynnydd, mae wedi symud ymlaen yn araf yn hytrach na champau mawr. Wrth edrych ymlaen, yr her sylfaenol yw newid y ffocws ar y materion hyn i ddarparu buddiannau i'r cyhoedd, defnyddwyr a gweithwyr cyfreithiol.
97. Mae'r rhain yn heriau hirdymor y bydd rhaid i'r sector eu trechu. Fodd bynnag, er gwaethaf Covid-19 a phwysau eraill yn yr amgylchedd allanol, rydym yn obeithiol y gall wneud hynny. Felly, rydym yn cloi trwy gynrig tri rheswm i fod yn obeithiol ynghylch y dyfodol.
98. Yn gyntaf, mae rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod eu pryderon hirsefydlog ynghylch materion polisi cyhoeddus yn cael gwrandawriad. Mae adolygiadau mawr o gymorth cyfreithiol a'r system cyfiawnder troseddol wedi cychwyn, sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer newid radical. Yn y farchnad, mae adolygiad cynnydd y CMA yn gyfle pwysig i alluogi unigolion a busnesau bach i fod yn fwy o rym, gan adeiladu ar arwyddion bod defnyddwyr yn fwy pendant gyda darparwyr gwasanaeth. O ran rheoleiddio, mae cwmpas ar gyfer atebion – yn defnyddio'r fframwaith cyfredol yn ogystal â diwygio deddfwriaethol ar raddfa fechan – a allai hybu diogelu defnyddwyr.
99. Yn ail, mae cymdeithas yn llawer mwy ymwybodol o anghydraddoldebau sy'n wynebu grwpiau penodol yn y boblogaeth, ac yn llai goddefol o anghyfiawnder cymdeithasol yn fwy eang. Gall rheolyddion ddefnyddio hyn i gyflymu cynnydd ar y materion hyn wrth iddynt effeithio ar wasanaethau cyfreithiol. Mae yna gyfleoedd i wneud gwasanaethau cyfreithiol yn fwy cynhwysol i sicrhau y gall pawb gael gwasanaeth da a chanlyniad teg waeth beth yw eu cefndir neu amgylchiadau mewn bywyd.
100. Yn drydydd, mae Covid-19 wedi gorfodi proffesiwn sy'n naturiol geidwadol i fabwysiadu technoleg ac arloesi ar raddfa a chyflymder na fyddai wedi bod yn rhagweladwy cyn y pandemig. Mae'r pandemig wedi arddangos mai diwylliant, yn fwy na rheoleiddio, sydd wedi llesteirio newid. Bydd yn allweddol sicrhau nad yw technoleg yn eithrio grwpiau bregus, ac y'i defnyddir mewn amgylchiadau priodol a bod yr amddiffyniadau cywir ar waith. Ac eto, os byddwn yn cydbwysu popeth yn briodol, mae gan dechnoleg botensial i wneud gwasanaethau cyfreithiol yn fwy fforddiadwy cyfleus ac yn haws i'w defnyddio.
101. Ni fydd yr heriau a sefydlir yn yr adroddiad hwn yn hawdd i'w trechu, ond rydym yn byw mewn amgylchedd trawsnewidiol ble mae newidiadau tu hwnt i amgyffred llai na blwyddyn yn ôl bellach y normal newydd. Mae Covid-19 yn her nad oedd neb am ei gweld, ond efallai mai dyma'r her yr oedd ei hangen ar y sector i ail-greu ei hun a chofleidio diwylliant ble mae anghenion defnyddwyr yn ganolog. Gyda strategaeth glir, arweinyddiaeth dda ac ymdrech ar y cyd, mae yna botensial enfawr i greu marchnad sy'n darparu'r tair thema strategol a nodwyd: canlyniadau mwy teg, mwy o hyder a gwell gwasanaethau.